Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2025 Rhif 511



Agoriad swyddogol Llwybr Mai - tud 9 (Llun: Catrin M S Davies)

## Rhifyn arbennig gydag atodiad lliw Sioe 2025

# Yn Fêl i Gyd

Gwelwyd cyffro mawr ar Fferm Wenyn Wainwright ar ddydd Sul 17 Awst, pan dyrrodd bron i 2,000 o ymwelwyr i'r safle ger Tal-y-bont ar gyfer Gŵyl Mêl Haf. Trefnodd y cwmni, sydd wedi ennill teitl Cynhyrchydd Bwyd Cymreig y Flwyddyn 2025 a Mêl Mwyaf Blasus y DU, ŵyl arbennig i ddathlu 35 mlynedd ers cychwyn y busnes. Yn 1990, sefydlwyd y fferm wenyn gan David Wainwright a Sarah Roberts yn Felin Fach, Tal-y-bont, ac ers hynny mae wedi tyfu i fod yn un o gynhyrchwyr mêl mwyaf poblogaidd y DU gan gyrraedd, yn ddiweddar iawn, restr fer y 'Great Taste Golden Forks 2025', sef 'Oscars' y diwydiant bwyd.

David Wainwright, y sylfaenydd a'r prif wenynwr, sydd wrth wraidd yr holl waith a'r llwyddiannau. Dechreuodd gadw gwenyn yn y 1970au ac mae ei ymroddiad dros y degawdau wedi sicrhau bod cynhaeaf y fferm a niferoedd y gwenyn yn ffynnu o un flwyddyn i'r llall. Mae'n awyddus iawn i rannu'r clod trwy gydnabod bod llawer o'r llwyddiant yn deillio o'r defnydd cyfrifol o blaladdwyr amgen gan ffermwyr a chynnydd mewn arferion ffermio sy'n gyfeillgar i wenyn. Roedd trefnu'r ŵyl yn cynnig cyfle i ddiolch i'r ffermwyr hynny sydd wedi helpu i ddiogelu peillwyr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fel Cyn-Gadeirydd Cymdeithas Ffermydd Gwenyn y DU, mae gan David lais dylanwadol ym myd gwenyna ym Mhrydain o hyd ac fe ddenodd yr ŵyl wenynwyr o bob cwr o Brydain a hyd yn oed Ewrop. Rhoddwyd cyfle iddyn nhw drafod yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu yn enwedig yr arfer o fewnforion mêl ffug o Tsieina, sy'n bygwth bywoliaeth cymaint o wenynwyr ac sy'n drysu



Lansio *Praise Bee* gydag Aled Jones



cwsmeriaid. Cafodd y gynulleidfa siawns hefyd i glywed Gibson Palata, gwenynwr o Zambia. Cwmni Wainwright oedd y cyntaf i ddod â mêl cofrestredig organig i'r farchnad yn y DU ac mae'r cwmni yn dal i weithio gyda'r un teuluoedd o wenynwyr heddiw.

Ochr yn ochr â'r sgyrsiau difrifol, roedd 'na sbort a llawenydd hefyd. Gwnaeth y canwr a'r cyflwynydd enwog Aled Jones ymddangosiad annisgwyl yn ystod y dathliadau i gyhoeddi ei fenter mêl newydd - 'Praise Bee' - mewn cydweithrediad â Fferm Wenyn Wainwright. Yn ystod ei sgwrs gyda David Wainwright, trafodwyd dechreuadau'r cwmni a'i athroniaeth tuag at y teuluoedd gwenyn sy'n cynhyrchu mêl Wainwright. Yn ddiweddarach, daeth cyfle i glywed hanes Gareth Ward, y cogydd Seren Michelin, a chyfarfod ag ef ar stondin Ynyshir.

Roedd yr ŵyl yn wledd i'r synhwyrau, gyda cherddoriaeth fyw gan The Smokin' Guns, DJ Eddy Scissorhands, The Twmpath Band, The Klezmonauts, a DJ S.A.Mule. Cynhaliwyd sesiynau blasu mêl dan arweiniad David a'i ferch Dawn Eleri Wainwright, a gweinwyd bwyd blasus y Syrian Dinner Project, Ultracomida, Carys's Angolino, Penycader Pizza a hufen iâ mêl Matt Suggett i enwi ond rhai. Gweinwyd medd a chwrw mêl Hive Mind Mead yn ogystal â 'slushie' o Ynyshir a oedd yn cynnwys jin Dyfi, pinwydd – a mêl, wrth gwrs! Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl roedd Llaeth Jenkins yno hefyd, yn ddiwyd yn gwerthu eu llaeth a'u hysgytlaeth poblogaidd.

Parhâd ar dudalen 2

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## GOLYGYDDION

Golygwyd y rhifyn hwn gan Menna gyda Iolo'n dylunio. Diolch iddynt.

Mair (mair.n@btinternet.com) a Betsan (betsanelenid@gmail.com) fydd yn golygu rhifyn Hydref.
Y dyddiad cau yw 3 Hydref a bydd y papur ar werth ar 10 Hydref.

### Parhâd o dudalen 1: Yn Fêl i Gyd

Mwynhaodd y plant gymaint â'r oedolion, wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol i ddysgu mwy am wenyna a chefn gwlad. Gwelwyd rhai yn rholio cŵyr i greu eu canhwyllau eu hunain dan arweiniad Cymdeithas Gwenynwyr Aberystwyth tra bod eraill yn dysgu am anifeiliaid fferm gyda Jâms Morgan o Faesnewydd, Tal-y-bont. Bydd awyrgylch deuluol yr ŵyl, y sgyrsiau a'r dathliadau yn siwr o aros yng nghof pob un o'r ymwelwyr am flynyddoedd i ddod. Edrychwn ymlaen at 35 mlynedd lwyddiannus arall, wrth i Fferm Wenyn Wainwright fynd o nerth i nerth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalennau Facebook ac Instagram Fferm Wenyn Wainwright: @wainwrightsbeefarm



### Dim cŵn ar y Patshyn Glas

Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned, trafodwyd y broblem o berchnogion yn caniatáu i'w cŵn faeddu ar y Patshyn Glas.

Mae'r mwyafrif yn codi'r baw a'i fagio, ond serch hynny nid yw'n bosibl cael gwared o'r olion yn gyfan gwbl. Gall baw ci gynnwys bacteria a pharasitiaid, sef llyngyr crwn *(Toxocara)* a all achosi clefyd ac arwain at gymhlethdodau difrifol fel dallineb, yn enwedig mewn plant.

Mae'r ardal hon yn cael ei defnyddio gan blant i chwarae a rholio ar y borfa, felly gofynnwn i chi **beidio** â gadael i'ch ci fynd ar y Patshyn Glas—gan ein bod yn byw yng nghefn gwlad mae yna ddigon o lefydd eraill ar gael.

Diolch am eich cydweithrediad.



**"Oe'n i ddim yn cofio am Rali Ceredigion!"**

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

## DYDDIADUR

**MEDI**

13 **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr
14 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, David Jones
**Rehoboth** 5 Carwyn Arthur
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15
**Bethesda Tynant** 2 Richard Lewis
15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 Noson agoriadol yng nghwmni Mair Tomos Ifans yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont
21 **Bethel** 10 Uno â Seion, Densil Morgan
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
25 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
27 **Bore Coffi Macmillan** 10.30–12.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
28 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**HYDREF**

4 **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr
5 **Bethel** 10 Uno â Seion, Andrew Lenny
**Rehoboth** 11.15 Ifan Mason Davies
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Gwasgu afalau cymunedol** 11–4 Cletwr
12 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Delyth a Bleddyn Huws
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 4 Gwasanaeth Diolchgarwch
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15

**BOB WYTHNOS**

**Neuadd Goffa Tal-y-bont** Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

**DIOLCH**

Dymuna Carys, Lisa, Nerys ac Andrew ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn ystod yr amser trist o golli Graham.

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

# Pobl a Phethe



Gavin a Caron a'r plant ar ddiwrnod eu priodas

**Priodasau**
Priodwyd Gavin Pugh a Caron Hywel, Llys Gwyn, Tal-y-bont ar 30 Mai. Aeth y ddau i Sbaen ar eu mis mêl yng nghwmni eu plant, Efan ac Ela. Dymunwn yn dda i'r pâr priod.

Llongyfarchiadau i Lowri Hughes, 6 Maesyfelin, Tal-y-bont gynt, ar achlysur ei phriodas gyda Sion Pickin. Priodwyd y ddau yng Nghaerfyrddin ar 30 Awst.

Llongyfarchiadau hefyd i Matthew a Kathryn, Cwm Glas, Tal-y-bont sydd wedi priodi yn ddiweddar.

**Ŵyr Newydd**
Mae llond tŷ o hapusrwydd yn Brynfa,Tal-y-bont, ers i ŵyr bach cyntaf Anwen Howard gael ei eni fis Awst. Pob dymuniad da i Gwion Arthur bach ac i'r teulu.

**Pen-blwydd arbennig**
Cafodd aelwyd Awel y Gors, Tal-y-bont, reswm i ddathlu ddwywaith ym mis Mehefin wrth i Ceri a Dylan gyrraedd oedran arbennig a hynny o fewn wythnos i'w gilydd! Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau.

**Marwolaethau**
Trist yw cofnodi marwolaeth dau a fu'n byw yn Nhal-y-bont am flynyddoedd lawer, ond a adawodd y pentref yn ddiweddar sef Maureen Jenkins, gynt o Aberceulan a Jeff Wells, gynt o 1 Stryd Birkenhead.

**Yn yr Ysbyty**
Gwellhâd buan i Jano Evans, Maesyderi, sydd yn Ysbyty Bronglais ers dros fis bellach. Brysiwch adre Jano.

**Croeso**
Croeso i Catrin a Luke a'u plant sydd newydd symud i 2 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

**Deunaw Oed**
Llongyfarchiadau i Efa Fflur Saunders-Jones, Ynys Eidiol, a ddathlodd ei phen-blwydd arbennig yn 18 oed ym mis Gorffennaf. Gobeithio i ti gael diwrnod da a dathliad wrth dy fodd.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Su James a Dai Dowsett, Is-y-coed, Tal-y-bont, ar ddathlu eu pen-blwydd priodas aur ym mis Gorffennaf. Priodwyd y ddau yn Aberystwyth yn 1975 a chynhaliwyd y wledd briodas yn Y Llew Gwyn, Tal-y-bont.

**Croeso'n ôl i Gymru**
Mae Sion Jenkins, mab Paul a Christine, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont, wedi symud yn ôl i'r ardal gyda'i wraig Anna a'u merched ar ôl bod yn byw yn Seland Newydd am naw mlynedd. Bydd Seren yn mynychu Ysgol Tal-y-bont a bydd Cerys yn mynd i'r Cylch Meithrin. Gobeithio y byddwch chi'n hapus yn ein plith!

**Yn Gwella**
Braf clywed bod Non Griffiths, Fferm Ffwrnais, wedi cael dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bronglais.

Da clywed hefyd bod Arwel West, White Windows, Wendy Kelly, Maesyderi, Kevin Sargeant, Caerdova a Geraint Evans, Garn-wen, Tal-y-bont, yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn lwyr wellhad i chi i gyd.

**Prif Swyddog**
Llongyfarchiadau i Caoimhe Melangell, Penygro, Bontgoch a gafodd eu hethol yn Brif Swyddog Ysgol Penweddig gyda Lleucu Nest. Pob hwyl i ti yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Cydymdeimlo**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Graham Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl ar 30 Mehefin. Cofion at Carys ei wraig a'r merched, Nerys a Lisa, yn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Jean, Michael a Sharon ar farwolaeth eu mam, Mary Llinos Jarvis, Llysteg, Maesyderi.

Cydymdeimlwn â Dave Matthewman, Pant y Llyn, Tal-y-bont, yn dilyn marwolaeth ei wraig, Pam.

Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Ffion a Rhian a'r teulu sydd wedi colli eu tad, Emyr Breese, gynt o Bantyffynnon, Bontgoch. Bydd teyrnged iddo yn rhifyn mis nesaf.

**Llawdriniaeth**
Dros yr haf fe gafodd dau o Dal-y-bont lawdriniaeth clun newydd. Gwelwyd y ddau, Mark Ebenezer a Paul Wilson, yn hercian o gwmpas y pentref wedi'r driniaeth ond braf clywed y byddant yn gwbl holliach cyn bo hir.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mark Bradley, Maesyderi, hefyd. Gobeithio y bydd yntau'n gwella'n fuan yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.

**Pob lwc**
Pob dymuniad da i Billy Swanson, 10 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar ei benodiad i swydd Cydlynydd Croeso a Gwasanaeth Cwsmeriaid yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Llongyfarchiadau a phob lwc i Ceri Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont, a apwyntiwyd yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar.

**Cywiriad**
Trwy amryfusedd, o dan 'Pobl a Phethe' yn rhifyn Mehefin, cofnodwyd mai enw merch fach Mererid a Paul Watson, Cae'r Deintur, Tal-y-bont, yw Alma Elizabeth ond nid yw hynny'n gywir. Alma Elisabeth yw enw'r un fach. Ymddiheuriadau am y camgymeriad.

**Croeso**

Croeso cynnes i Sam a Rob Pace, perchnogion newydd Capel Nazareth. Byddant yn treulio'r ddwy flynedd nesaf yn addasu'r adeilad arbennig hwn yn gartref newydd. Galwch heibio i ddweud helo, gweld eu cynlluniau a rhannu unrhyw hanes o'r capel. Byddant yn falch o'ch gweld.

## Wizard of Oz



Milly

Braf oedd gweld Miri Benjamin, 6 Dôl Pistyll, Tal-y-bont a Milly Riding, Hafod y Gors, Taliesin yn cymryd rhan yn *The Wizard of Oz* yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberyswyth, yn ystod mis Awst. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r perfformio!



Miri

## Ffenest Cletwr



Ruth Jên yn paentio ffenest ardal chwarae Cletwr gan ddefnyddio lluniau a wnaed gan blant yng Ngŵyl y Peillwyr Cletwr eleni yn sail i'r gwaith. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddi - mae'n fendigedig! Dewch i weld y ffenest orffenedig pan fyddwch chi yn y Cletwr y tro nesa!

## Y Cwtsh Cynnes

Fore Mawrth, 2 Medi, fe ailgychwynnodd y Cwtsh Cynnes yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont wedi hoe fach dros yr haf.

Braf oedd cael croesawu pawb yn ôl, yn arbennig Mrs Barbara Jenkins wedi ei chyfnod o salwch. Yn ystod y bore canwyd Pen-blwydd Hapus i Mrs Myfanwy James a oedd yn dathlu ei phen-blwydd.

Cofiwch alw heibio bob bore Mawrth o 10 tan 12. Bydd croeso cynnes yn eich aros.




## Tymor y Sioeau

Llongyfarchiadau i nifer o drigolion yr ardal ar eu llwyddiant mewn sioeau amaethyddol mawr a bach ar draws y wlad dros yr haf. Bu Gwartheg Duon Cymreig Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf a Theulu Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont yn llwyddiannus yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd a braf oedd gweld dwy hether o eiddo Cerrigcaranau Uchaf yn y Grŵp o Bump - Bridiau Bîff a ddyfarnwyd yn Is-bencampwyr yn y Sioe, gyda Dafydd ac Ynyr Tanrallt yn eu harwain yn barchus. Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Williams a'r teulu, Tal-y-bont a Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin a enillodd wobrau yn adrannau'r defaid yn Sioe Môn.



Caran Nel a Caran Ethel: pâr o heffrod ifanc Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, a enillodd y gil-wobr ym mhencampwriaeth nodedig "Females of the Future - Merched y Dyfodol" yn Adran y Da Bîff yn y Sioe Frenhinol Gymreig. Yn y llun gwelir Geraint, Tomi Jac, Owen ac Eifion gyda'r beirniad, Keith Jempson a'r noddwyr.



Y Gwartheg Duon Cymreig yn Bencampwyr y Grŵp o Dri - Bridiau Bîff Brodorol

## Glanhau'r afon



Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont (Llun: Catrin M S Davies)

Mae ymdrechion diflino Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont i gynnal a gwella ein hamgylchedd yn parhau. Dair blynedd ar ddeg ers y llifogydd mawr, fe aethon nhw ati ar 8 Mehefin i 'ddathlu' a chlirio afon Ceulan o wastraff gardd a changhennau. Roedd yr anibendod, oedd wedi casglu ers sawl mis, nid yn unig yn difetha harddwch yr afon ond yn bygwth rhwystro'r llif a chynyddu'r perygl o lifogydd. Rydyn ni'n ddyledus iddyn nhw am gydweithio i gadw'r Ceulan yn lân ac yn llifo'n rhydd.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont




Y dorf yn Tanrallt

**Cneifio Cyflym yn Denu Torf!**

Yn dilyn llwyddiant Sioe Tal-y-bont, cynhaliwyd y digwyddiad blynyddol poblogaidd o gneifio cyflym ar fferm Tanrallt ar nos Sadwrn, 23 Awst gan ddenu cynulleidfa frwdfrydig a chystadleuwyr medrus o bob cwr. Roedd y cyflymder yn syfrdanol, y sgiliau'n drawiadol a'r awyrgylch yn un o lawenydd pur. Roedd y beirniaid – Alun Elidyr, Gerallt Evans ac Aled Jenkins – yn gwneud eu gwaith yn gampus, gan gadw llygad barcud ar bob symudiad. Roedd y safon yn uchel ond llwyddodd pawb i godi at yr her. Roedd y noson yn dyst i waith tîm, brwdfrydedd, a balchder lleol. Roedd yr awyrgylch yn un o lawenydd a chymuned, gyda phawb yn cyfrannu at noson gofiadwy. Estynnwn ein diolch enfawr i holl noddwyr y noson. Mae'r digwyddiad hwn bellach wedi sefydlu ei hun fel uchafbwynt calendr lleol, gan ddangos y gorau o'n traddodiadau a'n cymuned. Noson i'w chofio, heb os!

Diolch yn fawr iawn i'r aelodau a helpodd i osod pethau ar gyfer y noson ac i dacluso ar y dydd Sul.




Cneifio medrus

**Dewch i ymuno â ni!**

Mae'r clwb yn croesawu aelodau newydd rhwng 10 a 28 oed drwy gydol y flwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno, rydym yn cwrdd yn wythnosol ar nos Fawrth yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Hoffwch a dilynwch ein tudalen Facebook CFfI Tal-y-bont am fanylion am amseroedd cwrdd yn y Neuadd a digwyddiadau. Croeso i chi yrru neges am fwy o wybodaeth.

Mae'r clwb yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol drwy'r flwyddyn, gan gynnig cyfleoedd i gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Dewch draw i un o'n cyfarfodydd – byddem wrth ein bodd yn eich gweld!

*Ela Jones*

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

## Colofn Elin Jones AS



Gobeithio bo chi'n mwynhau'r diwrnodau hir o haf rydyn ni'n cael eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi bod yn cystadlu ac yn llwyddiannus yn yr holl Eisteddfodau a sioeau amaethyddol dros y sir. Fues i'n Eisteddfod Wrecsam, ble cafwyd wythnos wych llawn bwrlwm a digwyddiadau, a dwi wedi mynychu nifer o'r sioeau lleol hefyd. Mae'n bleser gweld ffrwyth llafur a chynnyrch gwych Ceredigion ar ei orau.

Daeth newyddion da ym mis Awst fod deiseb y Senedd i arbed gwasanaethau strôc Bronglais wedi bwrw'i tharged o 10,000 o lofnodion ar-lein. O fewn llai na mis, roedd gwaith caled nifer o aelodau'r gymuned a'r grŵp Arbed Gwasanaethau Bronglais o gasglu'r holl lofnodion wedi talu ffordd, a diolch i bob un ohonoch fu mor barod i lofnodi'r ddeiseb. Bydd y Senedd nawr yn ystyried codi dadl ar lawr y Senedd yn seiliedig ar y ddeiseb, a gobeithio gallwn gadw gwasanaethau strôc llawn ym Mronglais. Nid yw'n dderbyniol disgwyl i deuluoedd a dioddefwyr strôc i orfod teithio'r holl ffordd i Lanelli, er mwyn derbyn triniaethau, sydd eisoes ar gael gyda ni yn Aberystwyth. Ac mae'n bwysig i ni gofio fod Bronglais hefyd yn gwasanaethu trigolion Powys a Meirionydd.

Mae sawl wythnos bellach ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ei newydd wedd, wedi mwy o waith ar y cyd gyda ffermwyr, undebau, ac arbenigwyr. Bydd y cynllun yn dechrau yn Ionawr 2026, ac rwy'n awyddus i glywed ganddoch os oes gyda chi sylwadau am y cynllun fel ag y mae erbyn hyn, a sut bydd e'n gweithio o ran eich fferm chi. Mae'n amlwg i ni fod y cynllun yn dipyn gwell na'r fersiwn cyntaf, ond mae'n siomedig taw dim ond trafod cyllid am flwyddyn ar y tro mae'r cynllun o hyd. Byddai llywodraeth Plaid Cymru yn cynnal y lefel hon o gyllid mewn termau real fel isafswm, ac yn hollbwysig, fel rhan o gylch cyllido aml-flynyddol. Dyna'r unig ffordd i roi'r sicrwydd hir dymor sydd ei angen ar ffermwyr. Mae'n glir i ni fod cwestiynau yn parhau ynghylch cydbwysedd buddsoddiad ar draws haenau'r cynllun, strwythur y cyfnod pontio, a'r diffyg eglurder ynghylch y taliad gwerth cymdeithasol hir-addawol. Felly cysylltwch â mi i rannu eich barn.

Cadwch yn ddiogel.
Elin Jones AS Ceredigion

## Cyfarfod Blynyddol Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ar 8 Gorffennaf, cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cylch Meithrin Tal-y-bont yn Nhŷ Sbri, Tal-y-bont. Roedd rhieni a staff yn bresennol, gan gynnwys Miss Vicky Joseph, Arweinydd y Cylch. Roedd Angharad Lewis yn cynrychioli'r Mudiad Meithrin. Mae'r bartneriaeth rhwng y Cylch ac Ysgol Tal-y-bont yn un bwysig ac roedd y Pwyllgor yn falch cael presenoldeb Mr Hefin Jones yn ei ddyddiau olaf cyn ymddeol, ynghyd â Mr Gregory Vearey-Roberts, Prifathro newydd yr ysgol.

Yn y cyfarfod, trafodwyd materion yn cynnwys ffïoedd, dyddiau agor y Cylch a syniadau ar gyfer codi arian. Etholwyd aelodau'r Pwyllgor hefyd.

Y Pwyllgor newydd ar gyfer y flwyddyn academig 2025/26 yw: Cadeirydd: Ffion Jones; Trysorydd: Hollie Wynne; Is-Drysorydd: Alice Leonard; Ysgrifennydd: Jyoti Upadhyay; Is-Ysgrifennydd: Bryony Davies; Person Cofrestredig: Michelle James

Diolch i chi am eich holl waith caled!

*Jyoti Upadhyay*

# Ysgol

## Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn

**Gwibdeithiau**

Un o uchafbwyntiau blwyddyn ysgol y plant yw mynd ar wibdaith i fwynhau gyda'i gilydd cyn i wyliau'r haf ddechrau. Mae hyn yn cael ei gyfri fel gwobr iddyn nhw am flwyddyn arbennig o waith. Eleni aeth yr ysgol gyfan i Barc Gelli Gyffwrdd ger Caernarfon ac yn ôl y lluniau a'r fideos o'r diwrnod fe gafodd pawb, gan gynnwys y staff, lawer iawn o hwyl. Diolch yn fawr i bawb am y croeso ac am fod yn amyneddgar wrth esbonio'r gwahanol weithgareddau a diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y nawdd hael, nid yn unig i'r wibdaith yma, ond i bob gweithgaredd ysgol. Mae plant Ysgol Tal-y-bont yn ffodus iawn o'r gefnogaeth.



Mwynhau ym Mharc Gelli Gyffwrdd

**Ysgol Greadigol**

Cynhaliwyd prynhawn arbennig yn yr ysgol er mwyn dathlu diwedd cyfnod y grant Ysgolion Arweiniol Creadigol a roddwyd i'r ysgol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yn ystod Tymor yr Haf yr oedd Dosbarth Allt y Crib wedi cydweithio gyda'r artist Thea De Klein a'r awdur Myfanwy Alexander dros gyfnod hir i greu stori wreiddiol ac anturus iawn. Pwrpas y gweithgareddau oedd codi hyder a gwella iaith lafar y disgyblion wrth fod yn rhan o'r weithgaredd. Roedd y plant wedi creu stori'n troi o gwmpas un o'r anifeiliaid oedd wedi bod yn ddrwg a bod angen ei gosbi! Uchafbwynt y gweithgareddau oedd cynnal llys barn yn yr ysgol a chyhuddo'r gylfinir o'r drwgweithredu – a hynny heb baratoi sgript ymlaen llaw! A phwy oedd y rheithgor? Wel, neb llai na rhieni'r plant oedd wedi ymuno gyda ni yn y dathliad. Da iawn chi gyd – roedd yn llawer iawn o hwyl.

Hoffwn ddiolch i Clara Lloyd am ei gwaith fel Asiant Creadigol yn ystod y flwyddyn ac i bawb sydd wedi helpu gyda'r prosiectau dros y flwyddyn. Diolch hefyd i Gyngor Celfyddydau Cymru am y nawdd, yr artisitiaid sydd wedi cydweithio gyda ni ac i'r rhieni am fod mor gefnogol i'r gweithgareddau.

Cafwyd cyngerdd gwych yng Nghanolfan y Celfyddydau cyn diwedd y tymor hefyd pan aeth plant o Ysgol Tal-y-bont i ymuno gyda disgyblion eraill o ysgolion Ceredigion i fod y rhan o'r Proms blynyddol. Roedd tua 100 o blant yn y gerddorfa a thua 350 yn y côr eleni eto! Diolch i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am drefnu'r profiad arbennig eto.

**Ysgol Iach**

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol gyda chymorth Dominic Jenkins eleni eto i ddechrau'r rasys. Llongyfarchiadau mawr i'r holl gystadleuwyr o'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y prynhawn ac wrth ymarfer ar gyfer y dydd. Da iawn i dîm Leri am fod yn enillwyr teilwng eleni eto, ond roedd yn agos iawn! Diolch yn fawr i gapteiniaid y ddau dîm am ein helpu gyda'r paratoadau. Llongyfarchiadau mawr i'r holl enillwyr. Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'n cefnogi, roedd yn ddiwrnod da iawn.

Ar ddechrau mis Gorffennaf, trefnwyd mabolgampau Cylch Aberystwyth ar Gaeau Ysgol Penweddig. Cafwyd diwrnod gwych o gystadlu yn erbyn ysgolion eraill yr ardal ar ddiwrnod braf o haf. Da iawn i bawb am roi ymdrech 100% i'r gwahanol gystadlaethau. Doedd dim rhyfedd fod pawb wedi blino'n lân erbyn y diwedd.



Enillwyr Mabolgampau'r Ysgol



Enillwyr Mabolgampau'r Ysgol

# Tal-y-bont

# Ffarwelio

**Ysgol y Gymuned**
Cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol eleni eto. Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd a phob hwyl i chi yn yr ysgolion uwchradd. Cofiwch alw draw i'n gweld yn fuan.

Diolch i bawb am gefnogi ac yn enwedig i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi. Roedd hi'n hyfryd croesawu Mrs Jones a Mrs James i'n helpu ni – y 'dream team' yn ôl i'r gegin! Diolch yn fawr i'r staff i gyd am bob cymorth ar y noson hefyd. Dymuniadau gorau i Natalie a gwellhad buan iddi a gobeithio ei gweld nol gyda ni ym mis Medi.


Neuadd yr ysgol dan ei sang ar brynhawn y ffarwelio (Llun: Catrin M S Davies)

**Clwb ar ôl Ysgol**
Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig lle diogel i ofalu am blant tan 5.30 bob nos Fercher a nos Iau. Diolch yn fawr i Miss Eirian, Miss Kate a Miss Emily am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant.

Ar ddiwedd y flwyddyn cafwyd cyfle i ddiolch i dri aelod o staff am eu gwaith yn Ysgol Tal-y-bont dros gyfanswm o bron i hanner can mlynedd! Diolch o galon i Miss Eleri, Mrs Rhys a Mr Jones am eich ymroddiad diflino a'ch gwaith caled yn yr ysgol dros y blynyddoedd. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau disgyblion ac mae aelodau'r gymuned wedi gwerthfawrogi eich gwaith yma. Pob lwc i chi'ch tri yn eich camau nesaf – cofiwch alw nol i'n gweld yn fuan.



Mr Jones, Miss Eleri a Mrs Rhys yn torri'r gacen (Llun: Catrin M S Davies)


Mr Jones yn hel atgofion wrth ffarwelio (Llun: Catrin M S Davies)

**Neges gan Mr Jones**
Ar ddiwedd fy nghyfnod yn Ysgol Tal-y-bont hoffwn ddiolch i holl olygyddion Papur Pawb am bob cefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae'r ysgol yn elwa'n fawr o gael y sylw yma ac mae'n hyfryd cael dangos y gwaith sy'n digwydd yn yr ysgol i'r gymuned ehangach. Mae wedi bod yn fraint i gael bod yn gweithio yn Ysgol Tal-y-bont ers 24 mlynedd ac mae gen i lawer iawn o atgofion melys am y gymdeithas agos sydd yma, y cydweithio rhwng y llywodraethwyr a'r rhieni ac yn enwedig am ddysgu'r plant annwyl sydd wedi bod yn ddisgyblion yma dros y blynyddoedd. Mae llawer wedi newid dros y blynyddoedd ond mae brwdfrydedd a chwilfrydedd y plant wedi aros yn debyg iawn.

Felly, wrth i mi ddiolch, rwyf hefyd yn dymuno'r gorau i Mr Greg Roberts, sydd eisoes wedi dechrau ar ei swydd fel Pennaeth, ac i'r staff i gyd hefyd. Gobeithio y bydd pawb yn yr ardal yn cefnogi Mr Roberts a'r ysgol yn y dyfodol. Mae hi'n sefydliad hynod werthfawr i'r gymuned ond mae angen ei gwarchod a'i pharchu wrth edrych ymlaen. Rwy'n siwr y byddaf yn galw draw i'ch gweld cyn hir.

*Hefin Jones*






# Croeso, Mr Roberts!



**Penodwyd Gregory Vearey-Roberts yn brifathro newydd Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont am gyfnod o ddwy flynedd. Cafodd ei gyfweld gan Papur Pawb er mwyn i drigolion yr ardal a'i ddisgyblion ddod i'w adnabod yn well.**

***Beth wnaeth eich ysbrydoli chi i ddod yn athro ysgol gynradd yn y lle cyntaf?***

Rydw i wedi bod yn hynod o lwcus i gael athrawon arbennig a ysbrydolodd fi wrth dyfu i fyny. Roedd Mrs Bethan Jones a'i diweddar ŵr, Eddie Jones, yn ddylanwad mawr arna i - dau ffigwr hollbwysig yn fy magwraeth gerddorol. Trwy dderbyn gwersi cerddoriaeth, alawon gwerin a chlocsio ganddynt, dysgais gymaint, nid yn unig am gerddoriaeth ond hefyd am werthoedd fel disgyblaeth, brwdfrydedd a pharch.

Yn ogystal, roedd Mrs Margaret Thomas, fy athrawes yn yr Ysgol Gymraeg, yn ysbrydoliaeth arbennig – yn enwedig yn y maes canu a chorau. Mae'r profiadau hyn wedi gadael argraff ddofn arna i, ac rydw i'n teimlo dyled fawr iddyn nhw am fy helpu i ddod yn berson hyderus, creadigol a brwdfrydig.

Y rheswm sy'n fy sbarduno i fod yn athro yw'r gred gref sydd gennyf fod gan bob plentyn yr hawl i lwyddo i'w lawn botensial - beth bynnag yw eu cefndir. Rydw i am fod y math o athro/brifathro all wneud gwahaniaeth go iawn ym mywyd plentyn.

***Sut fyddech chi'n disgrifio'ch arddull neu'ch steil chi o addysgu?***

Rydw i'n berson brwdfrydig sy'n mwynhau bod ar lawr y dosbarth, yn cydweithio ac yn cymryd rhan weithgar yng ngweithgareddau'r plant. Mae llais y plentyn yn chwarae rhan ganolog yn fy addysgu – rwy'n credu'n gryf mewn gwrando arnynt, meithrin eu syniadau a chreu amgylchedd lle mae pob dysgwr yn teimlo'n werthfawr ac yn cael ei barchu.

Mae datblygu dysgwyr annibynnol, sydd yn gallu cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, yn rhan annatod o fy steil addysgu. Rydw i'n hoffi gweld plant yn cymryd yr awenau, yn holi cwestiynau ac yn archwilio pynciau mewn ffyrdd sy'n berthnasol ac yn ysbrydoledig iddyn nhw. Mae creadigrwydd yn elfen allweddol yn fy ystafell ddosbarth hefyd.

Rydw i'n credu bod creu awyrgylch lle mae plant yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud camgymeriadau yn hanfodol. Trwy wneud camgymeriadau, maen nhw'n datblygu, yn dysgu ac yn magu dealltwriaeth ddyfnach.

***Bu'r misoedd diwethaf yn rhai digon anodd ac ansicr yn hanes yr ysgol ond bellach rydyn ni'n wynebu cyfnod tipyn mwy sefydlog. Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf am y flwyddyn academaidd sydd o'ch blaen chi? Oes gennych chi unrhyw gynlluniau yr hoffech chi eu rhannu gyda'r gymuned?***

Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at ddod i adnabod y plant, y staff, y rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'n gyfnod cyffrous, ac rydw i'n edrych ymlaen at gydweithio ar brosiectau newydd gyda'r gymuned leol.

Un o'r pethau mwyaf cyffrous i mi yw adeiladu perthynas agos ag Ysgol Craig yr Wylfa, er mwyn gallu cynnig profiadau ehangach a chyfleoedd cyfoethog i'r plant drwy gydweithio.

O fewn yr wythnosau cyntaf, rydym hefyd yn awyddus i greu gweledigaeth newydd ar gyfer yr ysgol - gweledigaeth a fydd yn gosod sail gadarn i bawb yng nghymuned yr ysgol: y plant, y staff, y rhieni a'r gymuned ehangach, i ffynnu gyda'i gilydd.

Mae yna nifer o weithgareddau ar y gweill ac mae yna groeso mawr i chi fel cymuned ar bob achlysur! Rydw i'n edrych ymlaen at gwrdd â chi i gyd.

***Heblaw bod yn athro gweithgar ac yn dad i ddau blentyn ifanc rydych chi'n arwain Côr Ger y Lli ac yn Gyfarwyddwr Academi Gerdd y Lli. Sut ydych chi'n llwyddo i gael amser i wneud popeth? Beth yw'r gyfrinach?***

Mae cerddoriaeth a pherfformio yn rhan allweddol o bwy ydw i, ac yn parhau i fod yn ffynhonnell fawr o lawenydd ac ysbrydoliaeth. Wrth gwrs, gyda dau o blant bach, Casi a Caio, sydd bellach yn dechrau ar eu taith gerddorol eu hunain, mae dod o hyd i amser yn her!

Ond rydw i'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod ni'n dal i wneud y pethau sy'n ein cyffroi ac sy'n ein gwneud yn hapus. Felly, er ei bod yn anodd o bryd i'w gilydd, rydw i'n ceisio gwneud cymaint ag y gallaf gyda'r corau, gan gadw'r angerdd yn fyw a rhannu'r mwynhad gyda phobl eraill.

***Os na fyddech chi'n athro, pa swydd fyddech chi'n ei gwneud?***

Byddai'r ateb yn hawdd i mi – canwr proffesiynol. Mae gen i angerdd tuag at gerddoriaeth a pherfformio, ac mae bod ar lwyfan, yn rhannu cerddoriaeth gyda chynulleidfa, yn rhywbeth sy'n rhoi llawenydd mawr i mi.

***A allwch chi rannu un ffaith ddifyr amdanoch chi'ch hun fydd yn synnu disgyblion Ysgol Tal-y-bont a darllenwyr Papur Pawb?***

Wel, mae gen i ddwy! Yn gyntaf, er fy mod i'n dwlu ar ganu, rydw i hefyd yn mwynhau cyfansoddi cerddoriaeth – ac rydw i wedi cael y fraint o gyrraedd rownd derfynol Carol yr Ŵyl ar S4C ddwywaith! Mae hynny wastad wedi bod yn brofiad cyffrous iawn.

Yr ail yw fy mod i'n teimlo cysylltiad cryf iawn â Thal-y-bont. Bues i'n byw yno am gyfnod byr pan oeddwn i'n iau, roedd Dad yn gweithio yn y garej yn y pentref am flynyddoedd ac mae Mam yn wreiddiol o Dal-y-bont – ac roedd hi'n gogyddes yn Ysgol Tal-y-bont.

**Diolch yn fawr i chi, Mr Roberts, a phob hwyl yn ystod y flwyddyn.**









## Clwb Gwawr Y Pennau



I gloi blwyddyn o weithgareddau aethom am dro i bentref Llanfinhangel-y-Creuddyn lle y buom yn ymweld ag Eglwys Sant Mihangel. Cawsom ein tywys o amgylch yr eglwys a chael cyfle i ddringo'r grisiau serth i weld y gwaith adnewyddu'r tŵr a'r gloch. Diddorol oedd cael gweld y gwaith arbennig a gyflawnwyd ar y tŵr dros y canrifoedd a fu. Cyn troi am adre cafwyd pryd o fwyd blasus yn Nhafarn 'Y Ffarmers'.

Ar ôl seibiant dros yr haf, byddwn yn ailgychwyn cwrdd yn fisol ym mis Medi. Eleni yr ydym yn dathlu 21 mlynedd ers sefydlu Clwb Gwawr y Pennau ac yr ydym yn trefnu nifer o weithgareddau cyffrous yn ystod y flwyddyn i nodi'r achlysur.

Croeso i aelodau hen a newydd i ymuno â ni.

*Catrin Evans*

## Ysgol Sul Bethel



Mwynhau'r picnic yn y Cae Bach

I gloi gweithgareddau Ysgol Sul Bethel dros yr haf cafwyd picnic arbennig yn y Cae Bach. Roedd yr Ysgol Sul wedi derbyn pecyn o hadau berwr yn y Gymanfa eleni i gyd fynd â sgwrs gan y Parch. Eifion Roberts ac roedd Elinor wedi eu tyfu ac wedi paratoi brechdanau wy a berwr i bawb!

Diolch i bob un am eu cefnogaeth i'r Ysgol Sul.


NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com


# Llwybr Mai



Y gymuned a'r disgyblion yn troedio'r llwybr (Llun: Catrin M S Davies)

**Ar ddiwrnod poeth o Fehefin daeth disgyblion Ysgol Tal-y-bont ac aelodau o'r ddwy gymuned ynghyd ar y ffin rhwng Cymunedau Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn. Yr achlysur oedd agoriad swyddogol Llwybr Mai - y llwybr newydd sy'n ymestyn o ben lôn Tanrallt trwy'r fynwent a draw at ben y lôn gyferbyn ag Erglodd.**

Ond pam Llwybr Mai, meddech chi? Sawl blwyddyn yn ôl pan roeddwn i fel Cynghorydd Sir wedi methu â darbwyllo'r Asiantaeth Priffyrdd bod angen llwybr troed ar hyd yr A487 roeddwn mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangynfelyn. Cododd y diweddar Gynghorydd Mai Leeding, unwaith eto yr angen am lwybr diogel i gysylltu Tre Taliesin â'r fynwent, roedd hefyd angen llwybr diogel o ochr Tal-y-bont. Ffurfiwyd pwyllgor ar y cyd rhwng y ddau Gyngor a diolch i Dafydd Jenkins, Tanrallt a Theulu'r Wigley ar ochr Llangynfelyn cafwyd caniatâd i ryddhau tir i ffurfio llwybr diogel oddi ar y ffordd fawr brysur, llwybr oedd yn arwain lawr i'r ffordd isa i mewn i Dre Taliesin. Gofynnwyd am gyngor gan Eifion Jones, Tre Taliesin, sydd yn Swyddog Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir a diolch iddo fe, ymhen hir a hwyr, buom yn falch i ddeall bod Eifion wedi sicrhau grant i greu llwybr newydd, grant oedd yn arbed cost i ni yn lleol. A rydym yn hynod ddiolchgar i Eifion a'i griw am gwblhau'r gwaith mor raenus.

Gan taw syniad Mai oedd y llwybr roedd yn briodol enwi'r llwybr yn Llwybr Mai i goffáu a diolch am ei chyfraniad i'n cymunedau. Torrwyd y rhuban i agor Llwybr Mai yn swyddogol gan Cadi Wen ac Alex yn yr agoriad a llongyfarchwyd Morven Hiscox am lunio'r logo buddugol.

*EapG*

# Y Gair Olaf



Yn ystod trafodaeth anffurfiol ychydig wythnosau yn ôl clywais y term 'do-gooders' yn cael ei ddefnyddio – a hynny mewn dull negyddol a dilornus.

Fel mae'n digwydd, roedd eraill yn y sgwrs yn wirfoddolwyr cymunedol sy'n rhoi oriau o waith di-dâl er mwyn gwasanaethu'r gymuned. Roeddent i gyd yn 'do-gooders' yn fy marn i.

Ac mae ugeiniau ohonynt yn gwasanaethu mewn amryw o gymdeithasau ar hyd a lled y gymuned. Roedd dros hanner cant o drigolion y cylch yn gwirfoddoli ar ddiwrnod Sioe Tal-y-bont ddiwedd Awst ac mae oddeutu deugain yn helpu i gyhoeddi y papur bro hwn.

Mae eraill, heb enwi neb, yn aelodau o bwyllgorau a gweithgareddau amrywiol – y Neuadd Goffa, Cwtsh Cynnes, Sesiwn Nos Wener, Treialon Cŵn Defaid, y Sioe, Merched y Wawr, y Cae Bach, y Maes Chwarae, y clybiau pêl-droed ieuenctid ac oedolion, y Llan Fach, Cletwr, y WI, ac yn y blaen, ac yn y blaen. Mae rhai hefyd yn gwasanaethu ar ein cynghorau bro. Gwneir y cyfan oll yn ddi-dâl (ac mewn rhai achosion yn ddi-ddiolch).

Dyma chi 'do-gooders' go iawn ac mae'n well gen i'r rhain na 'do-badders'.

Yn aml y rhai sy'n cwyno am hwn neu'r llall yn y gymuned yw'r rhai sydd ddim yn codi bys i gyfrannu at yr holl weithgareddau positif sy'n cadw'n cymuned ni yn fyw ac yn iach.

Mae'n rhwydd beirniadu ond cofier bod cyfraniadau 'do-gooders' yn hanfodol a dylem fod yn ddiolchgar iawn amdanynt.

*GJ*

# MELINAU GWYNT WAUN HESGOG



Un o staff Bute Energy yn dangos map o leoliad y tyrbinau

**Ar 19 Awst yn Neuadd Goffa Tal-y-bont bu cwmni Bute Energy yn datgelu mewn ymgynghoriad anstatudol gynllun y cwmni i godi fferm wynt o'r enw Parc Ynni Waun Hesgog yn yr ardal hon. Y tu allan i'r Neuadd roedd dwy stondin yn dadlau'r achos yn erbyn y datblygiad.**

Roedd staff Bute Energy, cwmni mawr sy'n anelu at gynhyrchu 25% o'r ynni gwyrdd sydd angen ar Gymru i gyrraedd y targed o sero net, yn esbonio'r prosiect i godi 37 o dyrbinau gwynt mewn fferm wynt a fyddai'n ymestyn yn fras o Foel Goch i ardal Cae'r Arglwyddes a draw at Bwlch y Garreg a chyrion Nant y Moch. Honnir y byddai'r tyrbinau yn cynhyrchu hyd at 248MW o ynni gwyrdd glân.

Roedd y cwmni yn gwrthod dweud beth fyddai'r cytundeb ariannol gyda pherchnogion y tiroedd dan sylw ond deellir ei fod yn sylweddol iawn. Serch hynny, roeddent yn pwysleiso'r budd i'r gymuned o safbwynt cynnig gwaith yn lleol ac o'r Gronfa Budd Gymunedol flynyddol. Byddai'r Gronfa hon yn cynnig grantiau cymunedol o gyfanswm o £1.8 miliwn ar hyd oes weithredol y parc, sef 40 mlynedd.

Codwyd nifer o gwestiynau gan drigolion lleol a ddaeth i'r Neuadd, gan gynnwys yr effaith ar yr amgylchedd, yn benodol ar y mawndiroedd, a sut y byddent yn cludo'r tyrbinau i'r lleoliadau. Roedd y rhai a oedd yn cynnal y ddwy stondin y tu allan i'r Neuadd yn feirniadol iawn. Ar stondin Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig mynegwyd anfodlonrwydd â'r pwerau eang a oedd gan un gweinidog yn Llywodraeth Cymru i benderfynu ar geisiadau ynni mawr.



Y brotest y tu allan i'r Neuadd

Ar y stondin arall, a drefnwyd gan Barry a Sara Wise, Bryngriffty, Pentrebach, roedd model o un o'r tyrbinau a fyddai'n ymestyn dros 200 medr o uchder, yn uwch felly na thŵr Blackpool ac yn bedair gwaith yn fwy na thyrbinau Mynydd Gorddu. Dywedodd Mr Wise ei fod yn gwrthwynebu datblygiad diwydiannol yn yr ardal, yn arbennig ar diroedd ecolegol pwysig. Pwysleisiodd hefyd bod Cymru eisoes yn cynhyrchu ddwywaith yr ynni sydd ei angen ar y wlad ac fe fyddai'r ynni ychwanegol a gynhyrchir yn cael ei allforio i Loegr heb ddim elw i Gymru.

Mae modd dysgu mwy am y cynllun drwy ymweld â gwefan Bute Energy: www. bute.energy/waun-hesgog/overview, a gellir cysylltu â'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cynllun drwy anfon ebost at environmentalactiontalybont@gmx.com. Bydd ymgynghoriad ffurfiol llawn yn cael ei gynnal yng Ngwanwyn 2026.

Gan fod hollti barn yn debygol yn yr achos hwn, bydd *Papur Pawb* yn croesawu llythyron o blaid neu yn erbyn y cynllun er mwyn eu cyhoeddi yn y papur dros y misoedd nesaf.

*GJ*



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00
01970 832 674

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
Cymraeg
www.probertandwilliams.co.uk

## Mwy o Lwyddiant i Doli Micstiyrs



Y cast ar faes Y Brifwyl yn Wrecsam

Yn dilyn llwyddiant yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ym mis Mawrth, bu cwmni drama ieuenctid Doli Micstiyrs yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. 'Noson Olaf o Ryddid' gan Sion Pennant, Bontgoch, sydd hefyd yn gynhyrchydd ar y cwmni, oedd y ddrama a berfformiwyd; drama sy'n gymysgedd o'r llon a'r lleddf yn dilyn criw o ferched ifanc yn ceisio mynd ar noson allan i'r dre i ddathlu canlyniadau eu haroliadau TGAU. Daeth y cwmni'n 3ydd yn y Gystadleuaeth Actio Drama neu Waith Dyfeisiedig ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod yn dilyn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Cwmni Ffermwyr Ifanc Uwchaled enillodd y wobr gyntaf a Chwmni'r Llawrdyrnu, Sarnau, ger y Bala ddaeth yn ail. Cyfaddefodd y beirniaid, Angharad Beech a'i thad, Eifion Lloyd Jones bod y tri chwmni wedi rhoi tasg anodd iawn iddynt a bod pob cwmni wedi rhoi perfformiadau o safon arbennig iawn.

Pedair o ferched lleol oedd y cast: Caoimhe Melangell o Bontgoch, Megan Griffiths a Llio Tanat o Landre a Nel Dafis o Aberystwyth. Cafodd y pedair ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid yn enwedig am lwyddo i bortreadu sefyllfaoedd dwys a digri. Cafodd y pedair eu henwi fel prif actorion posib a Llio ei henwi yn y tair uchaf.

Bu'r cwmni yn perfformio'n lleol hefyd fel rhan o Ŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Rhydypennau ym mis Ebrill ac yn Neuadd Tal-y-bont ym mis Gorffennaf.

*Siôn Pennant*

## Apêl Diolchgarwch 2025 - "Cynhaeaf o Obaith"

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach ar 12 Hydref am 4.00yh, gyda lluniaeth i ddilyn.

Rydym yn apelio am gyfraniadau a fydd yn mynd eleni i Fanc Bwyd Bro Ddyfi - Machynlleth a Hwb Cymunedol Machynlleth. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich Blychau Cynhaeaf o Obaith i'r Gwasanaeth Diolchgarwch, a fydd yn helpu pobl a theuluoedd sydd mewn angen. Dyma'r eitemau sydd eu hangen: grawnfwyd brecwast, siwgr, llaeth hiroes, bagiau te, coffi parod (*instant*), diodydd sgwash, sudd ffrwythau, cawl mewn tun, cigoedd a physgod mewn tun, jamiau, reis, pasta, saws pasta, llysiau a/neu ffrwythau mewn tun, tun pwdin reis, bisgedi, siocledi, sebon cawod, past dannedd, brwsh dannedd, diaroglydd, papur tŷ bach. Cyswlltwch â Wardeniaid yr Eglwys gydag unrhyw ymholiadau: Alison Swanson (07834884096), Celia Davies (01654 781236).

### Te Prynhawn a Ras Hwyaid

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y Te Prynhawn a'r Ras Hwyaid a gynhaliwyd yn y Foelas ar 16 Awst. Codwyd cyfanswm anhygoel o £796 at Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach.


Ni ddihangodd 'run hwyaden i lawr yr afon gan fod rhwyd yn eu dal!


## Cronfa Cae Bach

**Mae'r ymdrechion lleol i godi arian ar gyfer Cae Chwarae Tal-y-bont wedi parhau dros yr haf a thrwy haelioni a brwdfrydedd pobl yr ardal, mae'r coffrau'n dal i lenwi gan bwyll.**

### Helfa Drysor a Swper Tsili

Beth sy'n well na threulio prynhawn gwlyb ym mis Awst yn crwydro o gwmpas y pentref ar Helfa Drysor? Mentrodd 14 tîm allan yn y gwynt a'r glaw yn nigwyddiad diweddaraf Cronfa Cae Bach ar 28 Awst a llongyfarchiadau i dimau Ardwyn a Mur Mawr oedd yn gyd-enillwyr. Pen y daith oedd y Neuadd Goffa lle cafwyd croeso cynnes, llond bol o tsili blasus a chodwyd dros £500 i'r pot. Ardderchog!

*Nia Richards*


Teulu Humphreys o Goginan gyda thaflen sopen yr Helfa Drysor!

### Sêl Planhigion Green Cottage

Un arall sy wedi bod yn codi arian yn ddiwyd at gronfa Cae Bach yw Rachel Mills, Green Cottage, Tal-y-bont. Mae darllenwyr Papur Pawb bellach yn hen gyfarwydd â gweld amrywiaeth o blanhigion a blodau hyfryd y tu allan i'w thŷ ac unwaith eto yr haf hwn gwahoddodd Rachel drigolion yr ardal i ddod draw a'u prynu, gan roi cyfraniadau ariannol drwy'r blwch llythyron. Rachel sy'n tyfu'r holl flodau ei hun ac mae'r safon a'r amrywiaeth sydd ganddi yn dyst i'w bysedd gwyrdd a'i thalent arbennig. Does ryfedd bod y planhigion llysiau a blodau a'r perlysiau wedi diflannu mewn dim o dro. Diolch i'w hymdrechion, llwyddodd i godi £500 tuag at gronfa Cae Bach. Diolch o galon am dy holl ymdrechion, Rachel!


Planhigion yr arddwraig ddawnus, Rachel Mills


Ysgol Bro Hyddgen
Gwireddu
Breuddwydion

Ysgol Bro Hyddgen
Empowering
Dreams

**Noson Agored y Chweched Dosbarth**

**Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**

**20/10/25 5.30-7.30 yh**

*Ansicr am eich cam nesaf ar ôl TGAU?*
*Dewch i astudio mewn ysgol gefnogol a chyfeillgar gydag uchelgeisiau mawr, canlyniadau ardderchog a dosbarthiadau bach.*

***Enillydd y Gwobr Aur Lefel A ALPS 2024 sy'n ein gosod yn y 25% uchaf o ysgolion a cholegau yng Nghymru a Lloegr am gynnydd gwerth ychwanegol.***

A Level - Gold Award
Alps Top 25%

***01654 704200 / swyddfa@brohyddgen.powys.sch.uk***

# Sioe Tal-y-bont 2025

**Unwaith eto eleni, fe gafwyd Sioe ragorol a ddenodd gystadleuwyr ac ymwelwyr o bell ac agos i bentref Tal-y-bont. Tywynnodd yr haul ac roedd digon i ddiddannu pawb ar y cae yn ôl yr arfer.**

Llywyddion y Sioe oedd Aeron ac Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, pâr sydd wedi bod yn cefnogi'r digwyddiad ers blynyddoedd lawer. Bu Aeron yn brif stiward yr hen beiriannau am flynyddoedd, tra bu Aileen yn stiwardio'n ffyddlon yn y babell. Cyflwynwyd blodau i ddiolch iddynt ddiwedd y prynhawn gan Tomi Jac Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont.

Yn dilyn y traddodiad, roedd y rasys cŵn yn ddiweddglo hwyliog i'r diwrnod. Bydd canlyniadau'r rasys a'r sioe gŵn yn ymddangos yn rhifyn nesaf Papur Pawb.

Hoffai pwyllgor y Sioe ddiolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr am fod mor barod i gynorthwyo gyda'r paratoadau a'r trefniadau eleni eto. Diolch hefyd i'r noddwyr a'r aelodau sy'n cyfrannu at y sioe, y beirniaid, y cystadleuwyr a'r ymwelwyr a ddaeth i'n cefnogi ar y diwrnod.

## Y Canlyniadau

### CEFFYLAU

**ADRAN MERLOD MYNYDD CYMREIG**
Beirniad: Joanne Nicholson, Tŷ Lan, Nebo
**C17 Caseg Hesb neu Geffyl**
3. Eleri Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont
**C21 Merlen Mynydd Gymreig Adran A yn cael ei dangos o dan gyfrwy**
1. Cadi Lloyd-Williams, Neuadd Brynglas, Bontgoch
**CEFFYLAU MERLOTA**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C29 Ceffyl Merlota Gorau 138cm ac yn is, i'w farchogaeth**
1. Alaw Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
**CWPAN ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Alaw Morgan
**ADRAN MWYAF TRWSIADUS**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C31 Mwyaf trwsiadus wedi plethu/heb blethu, unrhyw uchder, i'w arwain**
1. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
3. Leah Cartwright, Danycoed, Taliesin
**ADRAN HELFARCH**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C34 Caseg neu Geffyl Hela dros 158cm (dan gyfrwy)**
1. Pippa Wells, Hen Ysgol, Taliesin
**ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN:** Pippa Wells

**ADRAN CLYBIAU MARCHOGAETH A MERLOD**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C37 Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd (plentyn 16 mlwydd oed ac iau)**
1. Leah Cartwright
2. Alaw Morgan
**C39 Cystadleuaeth Gwisg Ffansi**
1. Cadi Lloyd-Williams
**CEFFYLAU LLIW, PALOMINO A BRITH**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C40 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w arwain**
1. Pippa Wells
3. Leah Cartwright
**C42 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w farchogaeth**
1. Pippa Wells
3. Sarah Lloyd-Williams, Moelgolomen, Bontgoch
**CWPAN ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Pippa Wells
**CEFFYLAU FETERAN**
Beirniad: Phillipa Hughes, Lôn Hir, Banc y Capel, Caerfyrddin
**C43: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w arwain**
3. Cadi Lloyd-Williams
**CEFFYLAU RHAN FRÎD CYMREIG**
Beirniad: Gareth Roberts, Phylbern Stud, Tan y Graig, Llangar, Corwen
**C48 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w arwain**
1. Pippa Wells
**C50 Y March, Y Gaseg neu'r Ceffyl gorau, 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w farchogaeth**
2. Pippa Wells
**CWPAN ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Pippa Wells
**CYSTADLEUAETH DANGOSYDD IFANC Y CEFFYLAU**
Beirniad: Gareth Roberts, Phylbern Stud, Tan y Graig, Llangar, Corwen
**C51 Dangosydd Ifanc gorau o dan 12 oed**
2. Ieuan Meurig Evans, Tynant, Tal-y-bont
3. Cadi Lloyd-Williams
**C52 Dangosydd Ifanc gorau rhwng 12 a 16 oed**
3. Leah Cartwright
5. Mari Heulwen Evans, Tynant, Tal-y-bont
**MERLOD YNYSOEDD SHETLAND (BYCHAN)**
Beirniad: Gareth Roberts, Phylbern Stud, Tan y Graig, Llangar, Corwen
**C60 Caseg Fagu neu Gaseg Hesb**
1. Ieuan Meurig Evans
2. Ieuan Meurig Evans
**GWREGYS i'r cystadleuydd lleol gorau i ennill gwobr 1af ar ddiwrnod y sioe**
Pippa Wells
**CWPAN** y *Western Mail* a **GWREGYS** er cof am Peter Manley i Bencampwr y Ceffylau
Aysha Williams-Dean, Tanrallt, Llangwyrfon

### CNEIFIO

Beirniad: Arthur Morgan, Pencefen, Ferwig
**D109 Cneifiwr gorau gyda pheiriant**
1. Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
2. Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont
**D100 Cneifiwr gorau gyda pheiriant yn gyfyngedig i aelodau CFfI**
1. Bedwyr Siencyn
2. Ynyr Siencyn

### DEFAID

**DEFAID MYNYDD CYMREIG (Adran Fynydd)**
Beirniad: Mr Ifan Rhys Williams, Tai'r Meibion, Bangor
**D1 Hwrdd, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
1. Teulu Tyngraig, Tal-y-bont
2. Teulu Tanrallt, Tal-y-bont
**D2 Hwrdd Blwydd**
1, 2, 3. Teulu Tyngraig
**D3 Oen Hwrdd**
1, 2, 3. Teulu Tyngraig
**D4 Dafad, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
3. Teulu Tyngraig
**D5 Dafad Flwydd**
1. Teulu Tyngraig
**D6 Oen Benyw**
1, 3. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
**D7 Grŵp**
1. Teulu Tyngraig
**D8 Pâr o Hyrddod**
2. Teulu Tanrallt
3. D Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont
**PENCAMPWR AC IS-BENCAMPWR**
Teulu Tyngraig
**Dosbarth Arbennig 26 - Grŵp**
Teulu Tyngraig
**DEFAID TORDDU**
Beirniad: Mr Aled Thomas, Tynrhyg, Pontfaen, Abergwaun
**D9 Hwrdd**
1. Meirion a Dafydd Williams
**D10 Oen Hwrdd**
2. Meirion a Dafydd Williams
**D11 Dafad**
1, 2. Meirion a Dafydd Williams
**D12 Dafad Flwydd**
1. Meirion a Dafydd Williams
**D13 Oen Benyw**
2. Meirion a Dafydd Williams
**D14 Grŵp**
1. Meirion a Dafydd Williams
**PENCAMPWR**
Meirion a Dafydd Williams
**DEFAID TORWEN**
Beirniad: Mr Aled Thomas, Tynrhyg, Pontfaen, Abergwaun
**D15 Hwrdd**
1, 3. Meirion a Dafydd Williams
2. Gruffudd Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont
**D16 Oen Hwrdd**
1. Meirion a Dafydd Williams
2. Gruffudd Jones
**D17 Dafad**
2. Meirion a Dafydd Williams
3. Gruffudd Jones
**D18 Dafad Flwydd**
1. Meirion a Dafydd Williams
2. Gruffudd Jones
**D19 Oen Benyw**
2. Gruffudd Jones
3. Meirion a Dafydd Williams
**D20 Grŵp**
1. Meirion a Dafydd Williams
**PENCAMPWR**
Meirion a Dafydd Williams
**DEFAID BALWEN**
Beirniad: Aled Thomas, Tynrhyg, Pontfaen, Abergwaun
**D22 Oen Hwrdd**
1, 2. Teulu Pantcoch, Tal-y-bont
**D23 Dafad**
1, 2. Teulu Pantcoch
**D24 Dafad Flwydd**
1, 2, 3. Teulu Pantcoch
**D25 Oen Benyw**
1, 2. Teulu Pantcoch
**D26 Grŵp**
1. Teulu Pantcoch
**PENCAMPWR**
Teulu Pantcoch
**UNRHYW FRÎD MYNYDD ARALL**
Beirniad: Mr Geraint Jones, 20 Ffordd Dyfrig, Tywyn
**D34 Hwrdd**
1. Ffion Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont
**D35 Oen Hwrdd**
2. Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
**D36 Dafad**
1. Teulu Alltgoch
**IS-BENCAMPWR**
Teulu Alltgoch
**DEFAID JACOB**
Beirniad: Richard Bailey, Cannon, Llanerfyl
**D40 Hwrdd**
2. Huw Davies, Llety Ifan Hen, Bontgoch
**D41 Oen Hwrdd**
1. Huw Davies
**D42 Dafad**
2, 3. Huw Davies
**D43 Dafad Flwydd**
2, 3. Huw Davies
**D44 Oen Benyw**
1, 2. Huw Davies
**DEFAID CHAROLAIS**
Beirniad: Mrs Lorna Murray, Shipley Bank Farm, Pattingham
**D53 Hwrdd**
1. Osian Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont
**D55 Dafad**
3. Osian Jones
**D56 Dafad Flwydd**
3. Osian Jones
**D57 Oen Benyw**
3. Osian Jones
**D58 Grŵp**
1. Osian Jones
**IS-BENCAMPWR**
Osian Jones
**DEFAID DORSET (Moel a Chorniog)**
Beirniad: Ms Sian Downes, Fferm Bryngwyn, Aberaeron
**D65 Hwrdd**
1, 2. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall, Taliesin
**D66 Oen Hwrdd**
1. Griffiths & Davies
**D67 Dafad Oedrannus**
1, 2. Griffiths & Davies
**D68 Dafad Flwydd**
1, 2. Griffiths & Davies
**D69 Oen Benyw**
1, 2. Griffiths & Davies
**D70 Oen Benyw (heb ei thocio)**
1, 2. Griffiths & Davies
**D71 Grŵp**
1. Griffiths & Davies

**PENCAMPWR ac IS-BENCAMPWR**
Griffiths & Davies
**DEFAID ZWARTBLES**
Beirniad: Mrs Lorna Murray, Shipley Banc Farm, Pattingham
**D72 Hwrdd**
2. Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin
**D75 Dafad Flwydd**
2. Susan Rowlands
**DEFAID BRITH YR ISELDIROEDD**
Beirniad: Mrs Lorna Murray, Shipley Banc Farm, Pattingham
**D78 Hwrdd**
1. Meirion a Dafydd Williams
2. Tomos Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont
**D79 Oen Hwrdd**
1, 2. Elsi Iago, Pantcoch, Tal-y-bont
3. Tomos Jones
**D80 Dafad**
1. Elsi Iago
2, 3. Tomos Jones
**D81 Dafad Flwydd**
1. Elsi Iago
2. Tomos Jones

**D82 Oen Benyw**
1, 2 a 3. Elsi Iago
**D83 Grŵp**
1. Elsi Iago
**PENCAMPWR ac IS-BENCAMPWR**
Elsi Iago
**DEFAID BELTEX**
Beirniad: Huw Owen, New House, Aberhafesp
**D84 Hwrdd**
1. Daniel Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
**D85 Oen Hwrdd**
2. Daniel Morgan
**D86 Dafad**
1. Daniel Morgan
**D87 Dafad Flwydd**
1. Daniel Morgan
**D88 Oen Benyw**
1. Daniel Morgan
**D89 Grŵp**
Daniel Morgan
**IS-BENCAMPWR**
Daniel Morgan
**ŴYN TEWION**
Beirniad: Wil Lloyd Williams, Cwmdyfi, Machynlleth
**D102 Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso llai na 32kg yn fyw)**
1, 2. Huw Davies
**D103 Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso 32kg neu fwy yn fyw)**
1, 2. Huw Davies
**D104 Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Cymreig Pur**
1. Teulu Alltgoch
**D105 Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Arall**
1. Teulu Alltgoch
**Dosbarth Arbennig 43 - Dosbarth Y PENCAMPWR**
Huw Davies
**Dosbarth Arbennig 44 - Dosbarth Y PENCAMPWR**
Teulu Alltgoch
**CYSTADLEUAETH TYWYSYDD IFANC**
Beirniad: Ms Elin Rattray, Ffos y Fuwch, New Cross
**D106 Tywysydd gorau o dan 12 oed**
1. Ela Williams, Tal-y-bont
3. Elsi Iago
**D108 Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw oen swci**
1. Elsi Iago
2. Tomos Jones
3. Nela Haf, Pantcoch, Tal-y-bont
4. Magw Ifan, Pantcoch, Tal-y-bont
**CWPAN PENCAMPWR Y PENCAMPWYR**
Beirniad: Alun Elidyr, Simne Wen, Tal-y-bont
(Dafad North Country Cheviot - Park) Emily Jones, Penuwch
**DOSBARTH ARBENNIG 46 - Cystadleuaeth y Llywyddion**
Beirniaid: Aeron ac Aileen Williams, Tal-y-bont
(Dafad Zwartbles) G & L Owen, Llanerchfelys, Pandy Tudur

## GWARTHEG

**DA DUON CYMREIG**
Beirniad: Mr IOAN G ROBERTS, Tryfil Isaf, Llannerch-y-medd
G2 Tarw a aned rhwng 1.1.2023 a 31.12.2023
1. Teulu Tanrallt, Tal-y-bont
**G4 Buwch gyflo neu buwch sydd yn llaetha a aned cyn 1.1.2022**
2. Teulu Tanrallt
**G6 Heffer a aned rhwng 1.1.2023 a 31.12.2023**
2. Teulu Tanrallt
**G9 Pâr o wartheg**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont
3. Teulu Tanrallt
**IS-BENCAMPWR Y TARW GORAU**
Teulu Tanrallt
**IS-BENCAMPWR Y FENYW ORAU**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**BUWCH A LLO MEWN LLOC**
**G10 Buwch Ddu Gymreig gyda'i llo pur neu groes (a aned yn 2025) wrth droed**
1. Rowland Rees, Brysgaga, Bow Street
2. Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
**DA BÎFF (Masnachol neu Bedigri)**
**G27 Llo a aned yn 2025**
1. Teulu Alltgoch
**PENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Alltgoch
**GWARTHEG HOLSTEIN Y DU**
Beirniad: RHYS BEYNON-THOMAS, Hen Goitre, Pontarddulais
**G11 Heffer Holstein dan 12 mis oed ar ddiwrnod y Sioe**
3. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**G12 Heffer gyflo Holstein**
1. G a Rh Watkin, Henllys, Dolybont
3. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**G13 Buwch gyflo Holstein sych**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**G14 Heffer Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
2. G a Rh Watkin, Henllys
**G15 Buwch Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
2 a 3. G a Rh Watkin, Henllys
**G16 Pâr o wartheg**
1. G a Rh Watkin, Henllys
2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**PENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**IS-BENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**PENCAMPWR Y HEFFER ORAU**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**UNRHYW FRÎD GODRO ARALL**
**G19 Heffer neu fuwch sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**PENCAMPWR YR ADRAN**
Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**CYSTADLEUAETH TYWYSYDD IFANC**
Beirniad: ROBERT WILLIAMS, Y Berllan, Llandre
**G21 Tywysydd ifanc o dan 8 mlwydd oed yn arwain llo**
1. Lowri Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont
3. Tomi Jac Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont
**G22 Tywysydd ifanc rhwng 8 a 12 mlwydd oed yn arwain llo**
=1. Elinor Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont
=1. Leusa Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont

## Y BABELL FAWR

**GWREIDDIAU A GRONYNNAU**
**Yr ardd flodau orau**
Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont
Janet Owen, Tal-y-bont
Joanna Hughes, Tal-y-bont
**Yr ardd lysiau orau**
Claire Fowler, Tal-y-bont
Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont
Helen Hicks, Llangynfelyn
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**Yr ardd orau ar gyfer bywyd gwyllt**
1. Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont
2. Cath Lloyd-Williams, Bontgoch
Sampl orau o lafurun o unrhyw fath
Elgan Evans, Tal-y-bont
Elgan Evans, Tal-y-bont
Dau gnwd porthiant cyfatebol
Teulu Tynant, Tal-y-bont
Huw Davies, Bontgoch
Teulu Tynant, Tal-y-bont
**Yr ysgallyn hiraf**
1. Gwydion Sams-Jones, Tal-y-bont
2. Ari Lloyd-Williams, Bontgoch
3. Cai Lloyd-Williams, Bontgoch
**Belen o wair dôl**
1. Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
2. Geraint Evans, Tal-y-bont
3. Geraint Evans, Tal-y-bont
**Tywarchen orau o borfa sefydlog**
1. Teulu Tanrallt Tal-y-bont
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Teulu Tynant, Tal-y-bont
**CYNNYRCH GARDD**
**Tair Moronen Fer**
3. Ffion Jones, Tal-y-bont
Cenhinen
2. Anthony Holt, Tal-y-bont
**Llysieuyn di-siâp**
2. Claire Fowler, Tal-y-bont
**4 Coden Ffa Dringo**
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**4 Coden Bys**
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**4 Tomato**
1. Elfed Jones, Tal-y-bont
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**1 Sypyn o Domatos**
2. David Jones, Tal-y-bont
3. Ffion Jones, Tal-y-bont
**2 Ciwcymbr**
3. David Jones, Tal-y-bont
**6 Tomato Ceirios**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. David Jones, Tal-y-bont
3. Cath Lloyd-Williams,Tal-y-bont
**4 Ffa Ffrengig**
1. Monica Lloyd-Williams
2. Claire Fowler, Tal-y-bont
3. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**4 Coden o Ffa**
1. David Jones, Tal-y-bont
2. David Jones, Tal-y-bont
**3 Coesyn Riwbob**
2. Elfed Jones, Tal-y-bont
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**3 Corbwmpen**
1. Janet Owen, Tal-y-bont
**Casgliad o lysiau (Agored)**
Claire Fowler
**LLEOL**
**Casgliad o 4 Perlysiau**
1. Helen Hicks, Llangynfelyn
2. Cath Lloyd-Williams, Bontgoch
3. Layla Bryan, Tal-y-bont
**4 Taten**
Russell Jones, Tal-y-bont
Jo Chalmers, Pentrebach
3 Coesyn Riwbob
1. Elfed Jones, Tal-y-bont
2. John Evans, Tal-y-bont
3. Claire Fowler, Tal-y-bont
**2 Ciwcymbr**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. Cath Lloyd-Williams, Tal-y-bont
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**4 Ffa Dringo**
1. Beti Gordon, Bontgoch
2. Claire Fowler, Tal-y-bont
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Helen Hicks, Llangynfelyn
**FFRWYTHAU**
**3 Afal Bwyta**
1. John Foster,Tal-y-bont
2. Fal Jenkins, Tal-y-bont
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Afal Coginio**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
2. Osian, Gruffudd a Tomos, Tal-y-bont
**3 Peren Fwyta**
Elfed Jones, Tal-y-bont
Anthony Holt, Tal-y-bont
David Jones, Tal-y-bont
Peren Goginio
1. David Jones, Tal-y-bont
2. David Jones, Tal-y-bont
**6 Eirinen Ddu**
1. Sara Reisz, Tal-y-bont
2. Sara Reisz, Tal-y-bont
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**ARDDANGOSFA ORAU**
John Foster, Tal-y-bont
**PWYNTIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Anthony Holt, Tal-y-bont
**BLODAU**
**Pysen Bêr**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. Eleri Phillips, Tal-y-bont
3. Eleri Phillips, Tal-y-bont
**Cactws mewn Pot**
2. Dafydd Hughes, Tal-y-bont
3. Barry Thomas, Eglwysfach
**Suddlon mewn Pot**
1. Sara Reisz, Tal-y-bont
2. Carry Thomas, Eglwysfach
3. Barry Thomas, Eglwysfach
**Planhigyn Dail y Tŷ mewn Pot**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
2. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot**
1. Sara Reisz, Tal-y-bont
2. Sara Reisz, Tal-y-bont
**Begonia mewn Pot**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
3. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**Ffiwsia yn ei flodau mewn Pot**
2. Sara Reisz, Tal-y-bont
3. Sara Reisz, Tal-y-bont
**Gardd Fach ar Blât - Plant o dan 14 mlwydd oed**
1. Eva, Elodie ac Arabella, Tal-y-bont
**Casgliad o Flodau Gwyllt - Plant dan 14 mlwydd oed**
2. Erin Aubrey, Tal-y-bont
3. Layla Bryan, Tal-y-bont
**Blodyn Twll Botwm Gorau**
1. Liz Roberts, Tal-y-bont
**Tusw Ysgwydd Gorau**
2. Liz Roberts, Tal-y-bont
**Basged Grog**
2. Bethan Watkin, Borth
3. Bethan Watkin, Borth
**ARDDANGOSFA ORAU**
Sara Reisz, Tal-y-bont
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Sara Reisz, Tal-y-bont
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN (LLEOL)**
Sara Reisz, Tal-y-bont
**GOSOD BLODAU**
**Diferion Gwlith / Dew Drops (miniature)**
1. Cath Lloyd Williams, Bontgoch
Teithio'r Goedwig / A Forest Journey
2. Jill South, Tre Taliesin
**'Awel y Mynydd - trefniant o dan amodau**
1. Bethan Harries
2. Shirley Harries
3. Sandra Laverty, Tal-y-bont
**COGINIO**
**Cacen Ffrwythau**
1. Beti Grodon, Bontgoch
3. Jill South, Tre Taliesin
**Sbwng Fictoria**
1. Beti Gordon, Bontgoch
3. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Cacen Lemwn**
1. Grace Parker, Tal-y-bont
2. Alaw Morgan, Tal-y-bont
**Sbwng Siocled**
2. Ceri Jones, Tal-y-bont
3. Jane Millar, Tal-y-bont
**Bara Brith – heb furum**
2. Beti Gordon, Bontgoch
3. Nick Bryan, Tal-y-bont
**Torth Cartref – Tun Hirsgwar**
1. Elfed Jones, Tal-y-bont
2. Chris Henderson, Tal-y-bont
3. Eleri Phillips, Tal-y-bont
**4 Sgon**
2. Kath Keirle,Tal-y-bont
**6 Pice ar y Maen**
1. Ceri Jones, Tal-y-bont
2. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Fy Hoff Gacen Ddi-Glwten**
1. Alaw Morgan, Tal-y-bont
2. Gwen Billingham c/o Tal-y-bont
3. Sandra Laverty, Tal-y-bont
**Fy Hoff Gacen gyda rysait**
2. Alaw Morgan, Tal-y-bont
**Fflan Sawrus**
1. Dafydd Hughes, Tal-y-bont

**Tarten Ffrwythau**
3. Dafydd Hughes, Tal-y-bont
**4 Fflapjacs**
1. Ceri Jones, Tal-y-bont
3. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Pei Meringue Lemon**
1. Beti Gordon, Bontgoch
**Cacen Rhiwbob a Rhosmari (Cystadleuaeth i wrywod yn unig)**
1. Dafydd Hughes, Tal-y-bont
2. Chris Henderson, Tal-y-bont
3. Nick Bryan, c/o Tal-y-bont

**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Ceri Jones

**MARCIAU UCHAF GAN WRYW**
Dafydd Hughes

**CYFFEITHIAU**
**Jar o Farmaled**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Jam Ffrwythau Meddal**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Jam Ffrwythau gyda cherrig**
Helen Hicks, Llangynfelyn
**Jar o Jeli Ffrwythau**
2. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Geuled Lemwn**
1. Janet Jones, Tal-y-bont
3. Ellyw Jenkins, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Afal**
2. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Betys**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Ffa Dringo**
2. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Arall**
2. Janet Jones, Tal-y-bont
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Gyffaith Anarferol**
3. Jane Miller, Tal-y-bont
**Potel o Gordial**
1. Janet Owen, Tal-y-bont
2. Jo Chalmers, Tal-y-bont
3. Jane Miller, Tal-y-bont
**Potel o Win Coch Melys**
1. Janet Owen, Tal-y-bont
**Potel o Wirod Ffrwythau**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
2. Gwen Billingham, c/o Tal-y-bont
3. Ellyw Jenkins, Tal-y-bont

**ARDDANGOSFA ORAU YN ADRAN Y CYFFEITHIAU**
Janet Jones

**ARDDANGOSFA ORAU YN ADRAN Y GWIN**
Anthony Holt

**CYNNYRCH LLAETHDY**
**4 Wy Iar – Brown**
3. Osian, Gruffudd a Tomos Jones
**4 Wy iar Arlliwiedig**
1. Osian, Gruffudd a Tomos Jones
**4 Wy bantam**
1. Sianco John, Tal-y-bont
2.Jini John, Tal-y-bont
**4 Wy Hwyaden**
1. Seren Jenkins, Llangynfelyn
3 Wy iar gwahanol lliw
1. Seren Jenkins, Llangynfelyn
3. Seren Jenkins, Llangynfelyn

**ARDDANGOSYN GORAU YN YR ADRAN**
Seren Jenkins, Llangynfelyn

**MÊL**
**Eitem cosmetig yn cynnwys mel**
1. Kath Keirle, Tal-y-bont
2 Jar pwy o Fel Canolig
3.Helen Ovens, Tre Taliesin

**GWAITH LLAW**
**Eitem yn defnyddio du a gwyn**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem mewn Pwyth Croes**
1. Jane Pugh, Tre'r Ddôl
**Clustog**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
3. Eleri Phillips, Tal-y-bont
**Dilledyn wedi ei weu â Llaw**
1. Helen Ovens, Tre Taliesin
**Unrhyw Eitem wedi ei Grosio**
2. Catrin Saunders-Jones, Ffwrnais
**Unrhyw eitem yn defnyddio ffelt**
3. Sheila McDaid, Tal-y-bont
**Rhywbeth Newydd o hen jins**
1. Eleri Phillips, Tal-y-bont
2. Jane Pugh, Tre'r Ddôl

**CREFFT**
**Arwydd**
3. Jane Pugh, Tre'r Ddôl
**Collage allan o ddeunydd naturiol**
2. Sheila McDaid, Tal-y-bont
**Eitem o waith coed**
1. Matt Gunn, Tal-y-bont
**Ffon Gerdded**
1. Simon Lloyd-Williams
**Unrhyw eitem yn defnyddio gwlan**
2. Sheila McDaid, Tal-y-bont
3. Sheila McDaid, Tal-y-bont
**Paentiad - unrhyw gyfrwng**
1. Jane Pugh, Tre'r Ddôl
3. Jane Pugh, Tre'r Ddôl

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Natur ar ei orau**
1. Sianco John, Tal-y-bont
3. Jo Chalmers, Tal-y-bont
**Adlewyrchiad**
1. Sianco John, Tal-y-bont
2. Steffan Nutting, Llandre
**Pobl wrth ei gwaith**
1. Alun Elidyr, Tal-y-bont
2. Jo Chalmers, Tal-y-bont
3. Elan Elidyr, Tal-y-bont
**Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd –Joio**
1. Nela Haf, Tal-y-bont
2. Jini John, Tal-y-bont
3. Sianco John, Tal-y-bont
**Patrymau**
2. Jo Chalmers, Pentrebach
3. Steffan Nutting, Llandre
**Llwybr**
1. Alun Elidyr, Tal-y-bont
2. Alun Elidyr, Tal-y-bont
3. Bethan Jones, Tal-y-bont

**PLANT YSGOL GYNRADD Tal-y-bont**
**Dosbarth Meithrin: Ar y Fferm**
1. Mali Canter
2. Nefeli
3. Daisy Morgan
**Dosbarth Derbyn: O dan y môr**
1. Tabitha Alexander
2. Pererin Alexander a Seren Jenkins
3. Gwenno Doyle
**Blwyddyn 1 a 2: O dan y môr**
1. Lola Morgan
2. Sorsha Whincup
3. Magw Ifan
**Blynyddoedd 3 a 4: Mynyddoedd**
1. Ela Lewis
2. Bess Evans
3. Katri
**Blynyddoedd 5 a 6: Anifeiliaid y Sioe**
1. Isla Haddon
2. Daniel Morgan/Cadi Lloyd Williams
3. Pip Dutch

**PLANT YSGOL GYNRADD AGORED**
**Dosbarth Meithrin: Llun o flodau**
3. Gwenno Saunders-Jones, Ffwrnais
**Dosbarth Derbyn: Elfed yr Eliffant gyda pensiliau lliw**
3.Lowri Jenkins, Borth
**Blwyddyn 1 a 2 : Celf yn defnyddio bysedd**
2. Tomos Jones, Tal-y-bont
2. Sorsha Whincup
3. Tomos Jones,Tal-y-bont
**Blynyddoedd 3 a 4: Mwgwd**
2. Seren Jenkins, Tre'r Ddôl
3. Erin Aubrey, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 5 a 6: Potel Blastig wedi'i haddurno**
1. Caio Lewis, Tal-y-bont
2. Osian Saunders-Jones, Ffwrnais
2. Ieuan Meurig Evans, Tal-y-bont
3. Claire Drakeley, Tal-y-bont
**Dosbarth Meithrin – Cebab Ffrwythau**
1. Nela Haf, Tal-y-bont
2. Gwenno Saunders-Jones, Tal-y-bont
3. Nela Haf, Tal-y-bont
**Dosbarth Derbyn – 2 gacen wedi'u haddurno**
3. Efan Aubrey
**Blynyddoedd 1 a 2 – Dwy gacen rice crispy**
2. Sorsha Whincup
3. Tomos Jones, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 3 a 4 – 2 fflapjac**
3. Leusa Jenkins,Borth
**Blynyddoedd 5 a 6 – Fy hoff gacen**
1. Harvey Miller, Tal-y-bont
3. Ieuan Meurig Evans, Tal-y-bont

**PLANT YSGOL UWCHRADD**
**Fy Hoff Gacen**
1. Efan Saunders-Jones, Ffwrnais
**Smwddi gyda rysait**
Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
**Bocs Adar**
2. Tomos Breeze, Tal-y-bont
3. Swyn Jones, Tal-y-bont
**Ffotograff Ddoniol**
1. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
2. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
**Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol**
1. Alaw Morgan, Tal-y-bont
2. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
3. Alaw Morgan, Tal-y-bont

**ARDDANGOSFA ORAU**
Alaw Morgan


**NIFER UCHAF O FARCIAU**
Mari Heulwen Evans

**CLWB FFERMWYR IFANC**
**4 Browni**
2. Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
3. Alaw Morgan, Tal-y-bont
**Eitem yn defnyddio ffrwyth(au)**
1. Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
2. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
3. Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
**Anrheg wedi lapio**
Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
**Ffotograffiaeth – Golygfa**
1. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont
2. Mari Heulwen Evans, Tal-y-bont

**ARDDANGOSFA ORAU**
Efa Saunders-Jones

**NIFER UCHAF O BWYNTIAU**
Mari Heulwen Evans


Mae Cymdeithas Waldo Williams ac
Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd,
Prifysgol Aberystwyth, yn cynnal:



Darlith Waldo 2025:

CREU CENEDL HEDDWCH

Darlithydd: Jill Evans

Medi 26 2025

4:00 - 6:00 yh
(gweinir te/coffi o 4:00)

Tŷ Trafod,
Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth



Mae angen cofrestru am docyn (rhad ac am ddim) drwy:
https://darlithwaldo2025.eventbrite.co.uk
Am ymholiadau pellach, cysylltwch â:
acadops@aber.ac.uk
neu ffonio: 07850 713902 (rhwng Medi 8-25)

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
CYMDEITHAS WALDO WILLIAMS



## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Agorwyd Llwybr Mai yn swyddogol ganol mis Mehefin, a hynny mewn digwyddiad ar y cyd rhwng Cynghorau Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn. Roedd torf dda o bobl leol a phlant yr ysgol yno i fwynhau'r dathlu. Diolch i bawb a helpodd i wneud y diwrnod yn llwyddiannus, ac yn arbennig i Linda Hicks a Meinir Fleming am baratoi'r cacennau. Mae'r llwybr yn adnodd gwych i'r ardal, ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan lawer o gerddwyr.

Ddiwedd mis Mehefin, daeth cynrychiolwyr o gwmni Bute Energy i gyfarfod misol y Cyngor i roi cyflwyniad byr ar eu cynlluniau ar gyfer Parc Waun Hesgog. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd noson agored yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 19 Awst i roi cyfle i'r trigolion lleol gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ac am oblygiadau codi tyrbinau gwynt newydd yn yr ardal. Mae ymgynghoriad ar agor ar hyn o bryd os hoffech fynegi eich barn ar y mater, ac mae manylion y cwestiynau a holwyd yng nghyfarfod y Cyngor i'w gweld yn y cofnodion ar wefan y Cyngor. Yn yr un cyfarfod, mynegodd y Cyngor ei wrthwynebiad i gynlluniau Hywel Dda i gau'r Uned Strôc yn Ysbyty Bronglais, gan gynnig y dylai yn hytrach fuddsoddi yn y gwasanaeth presennol er mwyn ei wella.

Mae'r diffibriliwr oedd y tu allan i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont wedi cael ei symud i'r ciosg ger Cwmere erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r ddau arall yn dal yn eu lle ar y naill ben a'r llall i'r pentref.

Trafodwyd tipyn o faterion amgylcheddol yng nghyfarfod mis Gorffennaf, gyda chlymog Japan *(Japanese knotweed)* yn y Cae Bach yn achosi pryder. Gwnaed trefniadau erbyn hyn i'w waredu mewn modd diogel a phroffesiynol ddechrau'r hydref, felly gofynnwn yn garedig i chi beidio â cheisio ei dynnu oddi yno am fod pob darn sy'n cael ei ollwng ar lawr yn gallu gwreiddio a gwaethygu'r broblem.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym ar ddeall bod y Cyngor Sir yn bwriadu plannu coed/gwrych yn y sietyn ar hyd ymyl y fynwent, rhwng y ffordd fawr a llwybr Mai, i lenwi'r bylchau sydd ynddo ar hyn o bryd.

Roedd sawl cwyn wedi dod i law am gŵn yn baeddu ar y Patshyn Glas er gwaetha'r arwyddion 'Dim Cŵn' a osodwyd yno. Mae plant yn chwarae ar y Patshyn Glas, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf, ac er bod perchnogion cyfrifol yn glanhau'r baw ar eu hôl, mae yna wastad olion ar ôl. I fynd i'r afael â'r broblem, mae'r Cyngor wedi penderfynu gwahardd cŵn rhag mynd ar y glaswellt gan fod digon o lefydd eraill ar gael ar eu cyfer.

**Ymgyrch Cae Bach**

Daeth y Clwb 200 i ben yng nghyfarfod mis Gorffennaf pan ddewiswyd y tri enillydd olaf. Llwyddwyd i godi cyfanswm o £2,060 gydag £800 o hyn yn cael ei ddosbarthu ar ffurf gwobrau. Yn sgil y llwyddiant hwn, bydd Clwb 200 arall yn cael ei gynnal eleni a bydd y tocynnau ar werth yn Sioe Tal-y-bont a hyd at 28 Medi. Mae'r tocynnau ar gael gan aelodau Pwyllgor Cae Bach a'r Clerc. Rydym hefyd wedi sicrhau grant o £12,742 gan Gyngor Ceredigion tuag at gost prynu offer hygyrch. Wrth i mi ysgrifennu hwn, rydyn ni'n paratoi Helfa Drysor i'w chynnal yn Nhal-y-bont ar 30 Awst – os oeddech chi wedi cymryd rhan, gobeithio eich bod wedi mwynhau! Rydyn ni'n gobeithio cynnal diwrnod hwyl pêl-droed arall ddiwedd mis Medi, yn ogystal â noson bingo ddiwedd mis Hydref. Cadwch olwg ar y cyfryngau cymdeithasol a'r hysbysfyrddau i gael rhagor o fanylion. Mae'r ymgyrch hyd yma wedi llwyddo i godi dro £41,800, felly diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth.

# Coed Dafydd



Dafydd a'r criw brwdfrydig yn y goedlan

**Saif Coed Taliesin, a elwir bellach yn 'Coed Dafydd', tua milltir o'r briffordd ar y lôn o Daliesin i Bentrebach. Ers prynu'r goedlan hon yn 2017, mae Dafydd Hughes wedi rhoi ei fryd ar ei thrawsnewid yn safle cymunedol hygyrch a chroesawgar. Gan weithio'n agos gyda 'Coed Lleol', elusen genedlaethol sy'n cynnal gweithgareddau coetir ar draws Prydain, y ffocws yn y dyddiau cynnar oedd sefydlu llwybrau addas drwy'r goedlan - un yn mynd i gyfeiriad y gogledd o'r Tŷ Crwn a'r llall i'r de. Ond roedd gan Dafydd weledigaeth ehangach, sef cysylltu'r llwybrau hyn, trwy'r gordyfiant trwchus, yn rhan uchaf y goedwig.**

I wireddu'r weledigaeth hon, llwyddodd Dafydd i wneud cais am Grant Cymunedol gan *WWF Cymru*, er mwyn ariannu rhaglen chwe wythnos o sesiynau i wella'r goedlan dan arweiniad gwirfoddolwyr. Bob dydd Gwener, o 10 y bore tan 2 y prynhawn, mae tîm o wirfoddolwyr brwdfrydig - gyda chefnogaeth yr arweinwyr hyfforddedig Jenny a Mark - yn torchi eu llewys i lunio llwybrau, adeiladu grisiau a thocio isdyfiant trwchus, gan ddefnyddio coed sydd wedi cwympo mewn stormydd ac offer llaw o'r safle. Wrth gwrs, ni fyddai unrhyw sesiwn yn gyflawn heb seibiant haeddiannol yn y Tŷ Crwn, lle mae'r popty pitsa wedi cael defnydd da!

"Rydyn ni tua hanner ffordd i gysylltu'r llwybrau nawr," eglurodd Dafydd. "Rwy'n dwlu gweld pobl yn gadael gyda gwên ar eu hwynebau ar ôl sesiwn ymarfer corff da yn y 'Gampfa Werdd'— ar ôl adeiladu ychydig o risiau, gwneud rhai ffrindiau newydd, ac wedi mwynhau sleisen o bitsa hefyd gobeithio. Mae croeso i chi ymuno â ni."

Mae'r sesiynau gwirfoddoli olaf wedi'u trefnu ar gyfer dechrau mis Medi, gyda'r un olaf yn digwydd ar 19 Medi. Mae croeso cynnes i wirfoddolwyr newydd ddod draw i roi help llaw, mwynhau'r awyr iach a bod yn rhan o rywbeth parhaol. Bydd y prosiect yn gorffen gyda diwrnod agored i ddathlu ac arddangos yr hyn y mae'r gymuned wedi'i gyflawni. "Cadwch eich llygaid ar agor am y dyddiad," meddai Dafydd. "Ac wrth gwrs, manteisiwch ar y cyfle i gerdded y llwybr eich hun a mwynhau'r goedwig." Nid cyfres o lwybrau yn unig yw'r goedlan, mae'n lle byw ar gyfer dysgu a chwarae. Mae Coed Dafydd wedi tyfu i fod yn ganolfan gymunedol brysur, lle mae modd cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau. Yr haf hwn, cynhaliwyd Ysgol y Goedwig gan Cath Moyles a Natur Ni er mwyn cynnig profiadau ymarferol ym myd natur i blant. Yn ystod wythnos gyntaf mis Medi, arweiniodd Zena o 'Coed Lleol' ddiwrnod hyfforddi ar Ddiogelwch Tân a Hogi Offer ac mae gan wasanaeth 'Awyr Iach', Dyffryn Dyfi, amrywiaeth o sesiynau lles ar y gweill. Diolch i rodd hael gan *Mid Wales Scaffolding*, gosodwyd rhwyd fawr yn y goedlan sydd, yn fuan iawn, wedi dod yn lle chwarae poblogaidd i blant lleol.

Mae croeso i unrhyw un gerdded o amgylch y coed ar unrhyw adeg ac mae'r lle hefyd ar gael i'w archebu ar gyfer digwyddiadau cymunedol neu bartïon pen-blwydd plant. I wneud ymholiad neu ofyn am ffurflen archebu, dim ond cysylltu â Zena neu Elin trwy e-bost sydd eisiau (zenawilmot@smallwoods.org.uk ac ElinCrowley@smallwoods.org.uk).

Er mai sefydlu'r llwybr newydd yw'r ffocws presennol, mae gan Dafydd weledigaeth hirdymor. Un diwrnod, hoffai weld llwybrau'r goedlan yn cysylltu â Llwybr Mai fel bod yna un llinyn o lwybr hyfryd rhwng Tal-y-bont a Thaliesin.

Am y tro, mae Coed Dafydd yn ffynnu fel lle y gall pobl o bob oed ddod at ei gilydd, dysgu sgiliau newydd a mwynhau byd natur.

# Chwaraeon a Hamdden

### OEDI CYN CHWARAE

Pan ddaethpwyd i gytundeb yn gynharach eleni rhwng Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a theulu Cynnullmawr ynglŷn â'r defnydd o Gae'r Odyn Galch ar gyfer chwaraeon, roedd gobaith y gellid ailgychwyn chwarae pêl-droed ar y cae ym mis Medi. Gwaetha'r modd, mae angen mwy o waith paratoi ar y cae. Mae hynny oherwydd bod carnau'r gwartheg a fu'n pori ar y cae yn y gorffennol wedi creu rhychau a olygai nad oedd y cae yn ddigon gwastad. Roedd yr ymdrechion i rolio'r cae dros yr haf yn fethiant oherwydd y tywydd sych. Bydd y gwaith paratoi yn parhau am ychydig wythnosau eto ond gobeithir y bydd modd chwarae ar y cae unwaith eto erbyn diwedd y flwyddyn.

### DECHRAU ADDAWOL

Clwb Pêl-droed Tal-y-bont oedd pencampwyr Cynghrair Aberystwyth yn nhymor 2024-25 ac wedi tair gêm yn unig mae'r tîm ar frig y tabl unwaith eto, gan ennill pob gêm hyd yn hyn. Mae'n amlwg bod carfan gref a thalentog iawn gan y Clwb eleni. Mae chwaraewyr o'r tymor blaenorol i gyd wedi ailymuno, a braf oedd croesawu i'r garfan Fechgyn lleol megis Llion Jenkins, Osian Clark a Siôn Southgate, yn ogystal â dau chwaraewr ifanc a thalentog, Harley Lawton a Ciaran Evans. Dechreuwyd tymor 2025-26 ar nos Fercher 20 Awst pan gafwyd gêm arbennig oddi cartref yn erbyn Borth. Er yn 1-0 i lawr ar hanner amser, cafwyd perfformiad gwych yn yr ail hanner, gyda 3 gôl fendigedig i ennill y pwyntiau. Y sgôr terfynol oedd 3-1, gyda Dylan Benjamin, Aled Parry-Evans a Harley Lawton yn sgorio.

Ar 27 Awst curwyd Padarn o bum gôl i ddim gydag Aled Parry-Evans, Osian Clark, Jamie Graham, K Williams a Harley Lawton yn sgorio, ac ar 30 Awst curwyd Corris o'r un sgôr. Y tro hwn y sgorwyr oedd K Williams, H Whalley, M Fitzpatrick, Harley Lawton ac un gôl o droed un o chwaraewyr Corris.
Mae gobaith am dymor cyffrous a llwyddiannus i ddod!

### DATHLIAD


Ioan Joseph yn derbyn gan Anthony Southgate y darian am sgorio'r nifer uchaf o goliau i Dal-y-bont yn nhymor 2024-25.

Nos Wener 27 Gorffennaf cynhaliwyd cinio blynyddol Clwb Pêl-droed Tal-y-bont i ddathlu llwyddiannau tymor 2024-25. Cafwyd gwledd o fwyd a noson hwyliog dros ben yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth. Ar ddechrau'r noson cyflwynwyd y darian a'r tlysau unigol i'r chwaraewyr wedi iddynt ennill y gynghrair. Roedd 22 o chwaraewyr wedi cyfrannu ar hyd y tymor, a braf oedd gallu rhoi tlws i bob un. Roedd Bryn Smith yn cynrychioli pwyllgor y gynghrair, a braf oedd gweld Bryn yn cael mwynhau yn y llwyddiant. Callum Richards a dderbyniodd y darian fel capten y clwb. Yn hwyrach yn y noson cyflwynwyd y gwobrau unigol i'r chwaraewyr a ganlyn:
Prif Sgoriwr – Ioan Joseph; Chwaraewr yr Hyfforddwr – Kyle Thomson; Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn – Eleias Dafis; Chwaraewr y Tymor – Richard Williams

*Evan Rowlands*

## Tipyn o gamp




Mae Dominic Jenkins, Penlon Las, Tal-y-bont, wedi cyflawni tipyn o gamp trwy redeg ei farathon ultra cyntaf sef "Snowdonia Sea2sky" ar ddydd Sadwrn 6 Medi. Roedd y ras yn cychwyn ar draeth Abermaw, cyn dilyn y llwybr i Ddolgellau, yna dringo i fyny a thros Cader Idris, cyn gorffen yn ôl ar draeth Abermaw – pellter o 33 milltir!

Roedd Dominic yn codi arian ar gyfer "HAHAV" sef yr elusen leol a arweinir gan wirfoddolwyr, ac sy'n darparu cymorth ymarferol, cwmniaeth a chefnogaeth i unigolion â salwch cronig sy'n cyfyngu ar fywyd, yn ogystal â'u teuluoedd a'u hanwyliaid. Roedd yn ymgymryd â'r her hon er cof am ei ewythr, Stevan Southgate a fu farw 21 mlynedd yn ôl yn 43 mlwydd oed, ar ôl brwydr ddewr gyda chancr.

Yn ystod ei salwch cafodd Stevan gefnogaeth anhygoel gan elusen tebyg i HAHAV felly roedd rhedeg dros HAHAV er cof am Stevan yn golygu llawer i Dominic a welai gyfle i helpu a chefnogi teuluoedd eraill yn ystod amseroedd caled.
Mae eisoes wedi pasio'i darged o fil o bunnoedd a byddai'n gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad ychwanegol. Ewch i: https://tinyurl.com/y76t96fc

## Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont



Cynhaliwd ein treialon cŵn defaid fel arfer ar y dydd Mercher cyntaf ym mis Awst ac eto ar gaeau Llety Ifan Hen, trwy garedigrwydd y teulu. Cafwyd tywydd ardderchog drwy'r dydd a denwyd nifer fawr o gystadleuwyr. Roedd treialon Cymru wedi eu cynnal ddiwedd yr wythnos gynt ac roedd llawer wedi dod drosodd o'r cyfandir i'w gwylio ac yna wedi dod â'u cŵn gyda nhw i gystadlu mewn treialon lleol fel ein rhai ni.

Felly cafwyd cystadleuwr o Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Sweden ac un cystadleuwraig o Israel. Ond gyda bron i hanner y cystadleuwyr o'r cyfandir, cystadleuwyr Ceredigion enillodd y rhan fwyaf o'r gwobrau.

Ein beirniad eleni oedd Gerald Lewis o Langadog a gafodd ddiwrnod hir iawn gyda'r ci cyntaf yn rhedeg yn fuan wedi wyth o'r gloch y bore a'r olaf ychydig wedi hanner awr wedi wyth yr hwyr gyda'r golau yn diflannu'n gyflym.

Ar ddiwedd y treialon diolchodd y cadeirydd, Ieuan Morgan, i'r beirniad am ei waith drwy'r dydd. Diolchodd i'n Llywydd, Idwal Griffiths, am ei rodd hael a hefyd i'r rhai a fu'n stiwardio drwy'r dydd.

Dewi Tyngraig enillodd bedwar o'r pump dosbarth gyda'i gi Bob yn ennill y dosbarthiadau Dull Cenedlaethol a Joe y rhai Dull De Cymru. Enillydd y dosbarth arall oedd Nicolas Annalord o'r cyfandir.

Ar y nos Fawrth, cynhaliwyd treialon lleol gydag Emyr Lloyd o Lanrhystud yn beirniadu. Enillwyd y ddau ddosbarth gan Ynyr Tanrallt gyda Fin.

*Ieuan Morgan*

# DIWRNOD Y SIOE

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB MEDI 2025



*Mae angen nerth i dynnu buwch styfnig!*




*Llywyddion y Sioe eleni oedd Aileen ac Aeron Williams, Maesmeillion, a dyma Aeron yn ei elfen ar gefn tractor, gydag Aileen, eu merch Catrin a'i gŵr Darren, a'r wyrion Cris a Mari yn cadw golwg arno.*




*Eva gyda'i gardd fach ar blât fuddugol.*



*Pippa Wells, Taliesin, ar gefn ei cheffyl llwyddiannus, 'Blaenmorlais Sinatra'.*



*'Shadow' enillodd wobr gyntaf yn y sioe gŵn i Nicola Myring-Thomas.*




*Alaw Morgan, Alltgoch, yn derbyn y gwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran i ddisgyblion ysgolion uwchradd.*



*Holly Aubrey a fu'n cystadlu'n frwd yn y Babell.*



*Cath Lloyd-Williams, buddugol yn yr adran gosod blodau.*




*Ceri Jones, Awel y Gors, a enillodd y marciau uchaf yn yr adran goginio.*



*Gwydion Sams-Jones, tyfwr yr ysgallyn hiraf buddugol.*



*Alun Elidyr yn dweud y drefn wrth y cneifwyr!*




*Elsi Iago yn dathlu llwyddiant ysgubol defaid Balwen Pantcoch.*




*Matt Gunn, Bryn y Wawr, a enillodd wobr am ei waith coed.*



*Tomos a Daniel Morgan gyda'r defaid Texel a ddaeth â gwobrau lu i deulu Alltgoch.*



*Dafydd Hughes wrth ei fodd yn derbyn y wobr am y marciau uchaf gan wryw yn yr adran goginio.*



*Helen Hicks, Llangynfelyn, a enillodd wobrau yn yr adran cynnyrch gardd.*



*Beirniaid y Cneifio Cyflym: Aled Jenkins, Gerallt Evans ac Alun Elidyr.*




*Mari Heulwen Evans, Pantcoch, gyda'r llun a ddaeth â'r wobr gyntaf iddi.*



*Geraint Jenkins, Cerrigcaranau gyda'i fuwch fuddugol a'r beirniad Rhys Beynon-Thomas.*



*Defaid Mynydd llwyddiannus Tŷ'n Graig, gydag Enoc, Sara a Dewi.*



*Y dorf niferus yn gwylio'r Rasys Cŵn poblogaidd.*

Dylunio: stiwdioceri@gmail.com – Ffotograffau gan Mair Nutting, Robat Gruffydd, Rhys Huws, Gwyn a Fal Jenkins.

Noddwyd yr atodiad lliw hwn gan **Y Lolfa 01970 832304**